

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

Gwasanaethau Llety a Chynadledda

# Llawlyfr Preswylwyr

## Datganiad Preifatrwydd Data

Mae'r Gwasanaethau Llety a Chynadledda yn casglu, cofnodi, defnyddio ac mewn ambell achos yn rhannu gwybodaeth bersonol sydd gennym am ddefnyddwyr ein gwahanol wasanaethau ar gyfer y dibenion y'u bwriadwyd adeg casglu'r wybodaeth. Mae Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd yn ymrwymedig i ddiogelu preifatrwydd ein defnyddwyr drwy gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y defnydd o'ch data a'ch hawliau i'w gweld ar **wefan gyffredinol Gwarchod Data'r Brifysgol** a **thudalen we Gwybodaeth Diogelu Data'r Swyddfa Llety**.

## Cod Llety Myfyrwyr

### Eich hawl i gartref o safon

Mae lle rydych chi'n byw yn rhan fawr o fod yn y brifysgol. Mae'r Cod yn amlinellu popeth y dylech ei ddisgwyl gan eich Llety yn y Brifysgol yn ogystal â'ch cyfrifoldebau fel preswyliwr..

### Mae'r Cod yn diogelu eich hawliau i'r canlynol:

- Amgylchedd iach a diogel
- Atgyweiriadau a chynnal a chadw amserol
- Amgylchedd byw glân a dymunol
- Perthynas ffurfiol, gytundebol â'ch landlord
- Mynediad at wasanaethau iechyd a lles
- Amgylchedd byw lle nad oes ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y cod: **Tudalen we'r Cod Llety Myfyrwyr**



## Croeso i Aberystwyth!

Hyderwn y bydd y llawlyfr hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi ynghylch byw yn llety'r Brifysgol er mwyn i chi gael gwneud yn fawr o'ch amser gyda ni. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
**www.aber.ac.uk/cy/accommodation**

## Rhifau Defnyddiol

### Swyddfa Llety
(dydd Llun - dydd Iau 08:30 - 17:00, dydd Gwener 08:30 - 16:00)
+44 (0)1970 622984
llety@aber.ac.uk

### Desg Gymorth Cynnal a Chadw
+44 (0)1970 622999
Campushelp@aber.ac.uk

### Gwasanaeth Diogelwch
+44 (0)1970 622649
security@aber.ac.uk

### Gwasanaethau i Fyfyrwyr
+44 (0)1970 621761
cymorth-myfyrwyr@aber.ac.uk

### Swyddfa Denu Myfyrwyr Rhyngwladol
+44 (0)1970 622367
international@aber.ac.uk

### Swyddfa Ffioedd
+44 (0)1970 622043 / 628434
fees@aber.ac.uk

### Gwasanaethau Gwybodaeth
+44 (0)1970 622400
is@aber.ac.uk

### Gwasanaethau Brys
999

### Gwasanaethau Nad Ydynt yn Rhai Brys
101 (police) 111 (NHS)

# Cynnwys


## 01 Cwrdd â'r Tîm

**01** Tîm Rheoli Preswylfeydd
**01** Tîm y Swyddfa Llety
**01** Y Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol
**01** Tîm y Gwasanaethau Cynnal a Chadw
**01** Y Tîm Glanhau
**01** Tîm y Porthorion
**01** Y Tîm Diogelwch

## 04 Cyrraedd eich cartref newydd

**04** Cyn cyrraedd
**04** Cyrraedd
**04** Mynediad i'ch Llety
**04** Cerdyn Aber ac Allweddi

## 05 Mynediad i'ch Llety

**05** Mynediad i'r staff i'ch llety
**05** Mynediad i wneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw

## 05 Rhestr Gynnwys a Chynnal a Chadw

**05** Rhestr gynnwys ar-lein
**05** Eitemau Ychwanegol
**05** Gwaith cynnal a chadw

## 06 Cyfleusterau

**06** Trwydded Deledu
**06** Post
**06** Gwres, Dŵr Poeth a Goleuadau
**06** Rhyngrwyd
**06** Yswiriant
**06** Mannau Cymdeithasol, Ardaloedd Astudio ac Ystafelloedd y Gellir eu Harchebu
**06** Golchi Dillad

## 07 Gwastraff, Ailgylchu a Chynaliadwyedd

**07** Cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Aberystwyth
**07** Helpwch ni i leihau ein heffeithiau amgylcheddol
**07** Cymryd rhan

## 09 Disgwyliadau

**09** Sŵn
**09** Ysmygu
**09** Alcohol
**09** Cyd-fyw
**09** Ymwelwyr

## 11 Glanhau ac Archwiliadau

**11** Eich ystafell
**11** Ardaloedd cymunedol
**11** Tamprwydd a Llwydni
**11** Ardaloedd allanol
**11** Ein cyfrifoldeb ni
**12** Archwiliadau
**12** Archwiliadau Cymunedol
**12** Archwilio'r ystafelloedd gwely
**12** Canlyniadau archwiliadau
**12** Methu archwiliad

## 13 Diogelwch Personol

**13** Diogelwch Cyffredinol
**13** Diogelwch Trydanol
**13** Profi Dyfeisiau Cludadwy (PAT)

## 15 Diogelwch Tân

**15** Camau diogelu rhag tân
**15** Larymau/ymarferion tân
**16** Drysau Tân

## 17 Gadael yr Adeiladau

**17** Storio
**18** Hysbysiad am weithredu os oes tân

## 19 Bywyd Preswyl #Bywydaberlife

## 21 Iechyd a Chymorth

**21** Cofrestru â meddyg teulu
**21** Brechiadau
**21** Myfyrwyr sydd â chyflyrau iechyd parhaus
**21** Iechyd Meddwl a Lles
**21** Hygyrchedd a Chynhwysiant
**21** Cyngor ac Arian
**22** Gwasanaeth Cymorth o ran Aflonyddu a Chamymddwyn
**22** Gwasanaeth Cymorth a chyngor Fisâu
**22** Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd
**22** Undeb Myfyrwyr Aberystwyth (UMAber)

## 24 Chwaraeon, Ymarfer Corff, Iechyd a Lles

**24** Y Ganolfan Chwaraeon a Chromen

## 24 Gwasanaethau Croeso

## 26 Teithio a Pharcio

**26** Beicio
**26** Bysiau
**26** Ceir, beiciau modur a pharcio

## 27 Symud Allan

**28** Gadael yn ystod cyfnod y contract
**28** Symud i lety arall
**28** Eiddo nad oes ar neb ei eisiau
**28** Modiwl Symud Allan

## 29 Arhoswch gyda ni!

**29** Pam Aros Gyda Ni?

## 31 Torri amodau eich cytundeb

**31** Torri'r amodau mewn modd difrifol neu dro ar ôl tro
**31** Hawl i Apelio

## 34 Atodiad 1
Torri Amodau Cytundeb Meddiannaeth

## 35 Atodiad 2
Torri Amodau Cytundeb Meddiannaeth

## 37 Atodiad 3
Targedau Amseroedd Datrys Cynnal a Chadw

**37** Cwrt Mawr, Rosser, Trefloyne, Pantycelyn, PJM
**38** Fferm Penglais

## 39 Atodiad 4
Eitemau Gwaharddedig

## 41 Atodiad 5
Costau Safonol

## 42 Atodiad 6
Taliadau'n ymwneud â Diogelwch Tân

# Cwrdd â'r Tîm

Ein nod yw darparu cymorth a gofal o'r safon uchaf i chi ac mae gennym dimau ar draws y brifysgol i'ch helpu ag unrhyw ymholiadau. Rydym bob amser yn barod i helpu ag unrhyw fater, boed fach neu fawr.

## Tîm Rheoli Llety

Mae'r tîm yn gweithio i sicrhau bod eich amgylchedd byw, boed hynny'n seilwaith corfforol neu'r gwasanaethau a ddarperir i chi, mor dda ag y gallant fod. Mae'r tîm yn gyfrifol am oruchwylio ymrwymiad y brifysgol i'r **Cod Ymarfer Llety**, gan sicrhau cartref oddi cartref cyfforddus a chydymffurfiol.

## Tîm y Swyddfa Llety

Gall ein tîm cyfeillgar helpu gydag unrhyw ymholiadau o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â'ch llety. Cewch hyd i lawer mwy o wybodaeth ar y **tudalennau gwe Llety**.

## Y Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol

Rydym yn dîm cyfeillgar sy'n rheoli'r gwasanaeth Bywyd Preswylfeydd, gallwch siarad â ni am unrhyw bryderon neu ymholiadau sydd gennych, o faterion yn ymwneud â byw yn gymunedol i fywyd yn Aberystwyth. [Ein nod yw creu cymuned ar y campws y gallwn i gyd fod yn falch ohoni. Cadwch lygad hefyd ar ein gwe-ddalennau am ddigwyddiadau cymunedol y gallwch fynd iddynt am ddim gyda'n Cynorthwywyr Preswyl (CP). Myfyrwyr prifysgol yw ein CP, ac maent yma i'ch helpu i ymgartrefu a theimlo'n gyfforddus yn eich cartref newydd.Byddant yn cynnal digwyddiadau, sesiynau galw heibio, ymgynefino a chefnogaeth gyffredinol trwy gydol y flwyddyn, i sicrhau y gallwn ddarparu'r gymuned orau o Fywyd Preswyl.I weld pwy yw eich Cynorthwywyr Preswyl a chael manylion pellach am y gwasanaeth, ewch i **we-ddalen Bywyd Preswyl** a dilyn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol: **@bywydaberlife**

## Tîm y Gwasanaethau Cynnal a Chadw

Mae Tîm y Gwasanaethau Cynnal a Chadw yn gwneud gwaith cynnal a chadw adweithiol a gwaith sydd wedi'i gynllunio ymlaen llaw ar holl adeiladau'r Brifysgol. Efallai y byddwch yn eu gweld o ddydd i ddydd yn gwneud gwaith yn eich llety. I gael mwy o wybodaeth am sut i gysylltu â'r tîm ac adrodd am faterion cynnal a chadw, Ewch i **dudalen 5**.

## Y Tîm Glanhau

Fe welwch ein Tîm Glanhau'n rheolaidd yn eich bloc, eich neuadd a'ch mannau dysgu cymunedol. Mae croeso i chi aros i gael sgwrs â nhw.

## Y Porthorion

Fe welwch ein Porthorion wrth eu dyletswyddau bob dydd ym mhob rhan o'r Brifysgol. Efallai y gwelwch nhw yn eich llety hefyd yn dod i weld rhyw waith cynnal a chadw rydych wedi rhoi gwybod amdano - os ydych yn dweud wrthym am broblem na all ein Porthorion ei datrys, byddant yn rhoi gwybod i'r tîm cynnal a chadw priodol.

## Y Tîm Diogelwch

Mae ein Tîm Diogelwch ar gael 24/7 ac yn staffio'r ddesg yn Nerbynfa'r Campws. Efallai y gwelwch aelodau o'r tîm ar batrôl mewn cerbydau ac ar droed o gwmpas ein neuaddau preswyl. Os byddwch yn poeni am rywbeth tra byddwch yn byw yma, mae croeso mawr ichi gysylltu â'r Tîm Diogelwch drwy ffonio 01970 622649, neu e-bostiwch diogelwch@aber.ac.uk (ymholiadau nad ydynt yn rhai brys).








# Cyrraedd eich cartref newydd

## Cyn cyrraedd

Cyn i chi gyrraedd bydd angen i chi wybod beth i ddod gyda chi, beth i'w adael gartref a beth sy'n cael ei ddarparu eisoes yn y llety. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar ein **gwefan Symud i Mewn**, sydd hefyd yn cynnwys rhestr ddefnyddiol y gallwch ei hargraffu. Ceir hyd i fanylion am eitemau gwaharddedig hefyd yn **Atodiad 4**.

Os nad ydych am drafferthu dod ag eitemau hanfodol, megis dillad gwely ac offer i'r gegin, gallwch eu harchebu drwy **Unpacked** lle y cewch brynu'r pethau angenrheidiol a sicrhau eu bod yn cael eu hanfon i'ch llety cyn i chi gyrraedd!

Mae holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn cael Cerdyn Aber. Mae'n hynod o bwysig bod eich Cerdyn Aber yn barod ar eich cyfer pan fyddwch yn cyrraedd, er mwyn osgoi unrhyw oedi cyn cael mynd i'ch llety. Er mwyn sicrhau bod eich cerdyn yn barod ar eich cyfer, gwnewch gais amdano cyn gynted â phosibl trwy uwchlwytho llun i'ch Cofnod Myfyriwr.

## Cyrraedd

Cewch ddod i nôl allwedd eich ystafell ar y dyddiad a'r amser cyrraedd sydd wedi'u hargraffu yn eich Cytundeb Meddiannaeth.

Gallwch drefnu eich amser cyrraedd pan fyddwch yn cwblhau ein Rhaglen Gynefino.

I gael gwybod mwy am gyrraedd eich llety, gan gynnwys ble i ddod i nôl eich allwedd, ewch i'n **gwefan Symud i Mewn.**

## Mynediad i'ch Llety

Fe welwch y bydd system clo ddiogel ar bob ystafell wely, fflat/tŷ a drws bloc. Mae ein preswylfeydd yn amrywio o ran y math o system gloi a ddarperir er enghraifft, mae rhai yn cael eu gweithredu gan allwedd(i), a rhai gan eich Cerdyn Prifysgol Aber.

Gwnewch yn siŵr bod eich allwedd neu'ch cerdyn Aber bob amser yn ddiogel; peidiwch â'u benthyca i unrhyw un, gan gynnwys ffrindiau, teulu na chyd-fyfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn eich cynghori i gario eich **Cerdyn Aber Prifysgol** arnoch chi bob amser gan fod eich Cerdyn Aber nid yn unig yn rhoi mynediad i chi i'ch llety ond i ardaloedd eraill, megis yr ystafelloedd golchi dillad.

Wrth adael eich llety, p'un a fydd hyn am gyfnod byr o amser neu gyfnod hir o amser, rhaid i chi bob amser gloi'ch drysau a mynd â'ch allweddi gyda chi. Mae hyn er mwyn sicrhau nad oes gan unrhyw un arall fynediad i'ch ystafell a bod eich eiddo yn cael eu cadw'n ddiogel. Os caiff rhywbeth ei ddwyn / difrodi a chithau wedi gadael eich drws heb ei gloi, efallai y bydd yn dirymu eich yswiriant.

## Allweddi coll neu wedi eu dwyn

Os ydych chi wedi colli eich Cerdyn Aber neu'ch allwedd, rhaid i chi roi gwybod am hyn ar unwaith. Efallai y codir tâl ar gyfer unrhyw allweddi/cardiau newydd a roddir i chi.

### Cael eich cloi allan

Os cewch eich cloi allan, peidiwch â phoeni, cysylltwch â'r Swyddfa Llety (01970 622984) neu â Llinell Gymorth 24/7 Diogelwch y Campws (01970 622649).

# Mynediad i'ch Llety

O bryd i'w gilydd, mae'n bosib y bydd angen i bobl eraill gael mynd i mewn i'ch llety. **Cofiwch: mae'n rhaid i bob aelod o staff fod â cherdyn adnabod. Mae gennych hawl i ofyn am gael gweld y cerdyn adnabod ac i wrthod gadael i'r staff ddod i mewn os nad ydynt yn dangos cerdyn adnabod – os bydd hyn yn digwydd cysylltwch â'r Swyddfa Llety.**

## Mynediad i'r staff i'ch llety

Bydd angen i staff fynd i mewn i'ch llety i wneud archwiliadau, gwirio materion diogelwch ac arolygu materion cynnal a chadw; cewch tua 7 diwrnod o rybudd. Mae nifer fach o resymau a fydd yn golygu na ellir rhoi rhybudd o'r fath, e.e. ymweliadau lles, i ymchwilio i ddigwyddiad, a hysbysu digwyddiadau, mewn argyfwng, os bydd rhywun yn cwyno am sŵn, os bydd Cynorthwyydd Preswyl yn danfon rhywbeth neu'n ymweld, yn ystod ymarferion tân, neu am resymau iechyd a diogelwch.

I gael gwybod mwy am Fynediad, ewch i'r **wefan Byw yn ein Llety.**

## Mynediad i wneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw

Os rhowch wybod i ni fod nam yn eich llety (boed hynny ar y ffôn, trwy e-bost, yr adroddiad cofnodi nam neu eich rhestr eiddo), rydych yn rhoi awdurdod i gontractwyr gael mynd i mewn i'r ardal dan sylw er mwyn ei drwsio. Nodwch: os bydd unrhyw faterion cynnal a chadw yn cael eu nodi gan staff sy'n gwneud yr arolygiadau, byddant yn cael eu rhoi i'r tîm cynnal a chadw perthnasol. Os nad ydych gartref pan gyrhaeddant, byddant yn gadael cerdyn galw i roi gwybod i chi a ydynt wedi datrys y mater neu a fydd angen iddynt ddychwelyd.

Pan rowch wybod bod angen gwaith atgyweirio, rydych hefyd yn rhoi caniatâd i staff ddod i mewn i'ch ystafell neu'ch fflat i asesu neu i wneud y gwaith.

# Rhestr Gynnwys a Chynnal a Chadw

Dylai eich llety fod yn y cyflwr gorau posibl pan gyrhaeddwch ac fe ddylai hynny gael ei gynnal drwy gydol yr amser rydych yn byw yn y llety. Serch hynny, ni fydd hynny'n bosib weithiau oherwydd defnydd a thraul arferol.

## Rhestr gynnwys ar-lein

Yn fuan ar ôl i chi gyrraedd, cewch ebost yn gofyn i chi gwblhau rhestr ar-lein o gynnwys eich ystafell wely a'r ardaloedd cymunedol, a hynny er mwyn i chi allu dweud wrthym am gyflwr eich llety. Drwy hyn fe gawn wybod a oes angen i ni drwsio rhywbeth neu am unrhyw ddifrod. Bydd rhoi gwybod am broblemau ar y rhestr eiddo'n golygu na fyddwch yn gorfod talu am hynny ar ddiwedd eich Contract Meddiannaeth. Rhaid i chi gwblhau'r rhestr eiddo ymhen 7 diwrnod neu fe gofnodir yn awtomatig nad oes dim problemau â'ch llety. Os gwelwch unrhyw drafferthion cynnal a chadw yn eich llety pan fyddwch yn cyrraedd sydd angen sylw, dilynwch y ddolen i'r wefan i roi gwybod am y nam gan ddefnyddio ein "**ffurflen cofnodi nam**". Os oes angen gwaith atgyweirio brys arnoch, cysylltwch â'r ddesg gymorth cynnal a chadw ar 01970 622999.

## Eitemau Ychwanegol

Efallai y byddwch yn penderfynu yr hoffech ddod â chelfi / offer ychwanegol i'ch llety. Gweler ein **gwe-ddalen am Eitemau Ychwanegol** i gael rhagor o wybodaeth.

## Gwaith cynnal a chadw

Dylech roi gwybod am unrhyw broblemau megis cynnal a chadw / atgyweirio, difrod, peryglon a materion rheoli plâu, cyn gynted ag y sylwch arnynt drwy gyfrwng ein **ffurflen cofnodi problemau ar-lein**. Rydym yn ymdrin â'r holl faterion cynnal a chadw yn nhrefn eu blaenoriaeth (cyfeiriwch at Atodiad 3).

Dim ond yn ystod oriau swyddfa arferol (o ddydd Llun i ddydd Gwener) y bydd namau sydd wedi'u cofnodi ar-lein yn cael eu derbyn a'u prosesu, ac eithrio ar **Ŵyl y Banc ac ar Ddiwrnodau Cau'r Brifysgol.** I wybod beth yw'r oriau swyddfa arferol, ewch **i'r dudalen Cofnodi Nam.** Os oes angen atgyweirio rhywbeth ar frys, ffoniwch y ddesg gymorth cynnal a chadw ar 01970 622999.



# Cyfleusterau

## Trwydded Deledu

Mae arnoch angen trwydded deledu er mwyn gwylio neu recordio rhaglenni teledu byw ar unrhyw sianel, neu lawrlwytho neu wylio rhaglenni'r BBC ar iPlayer. Os yw eich llety yn cynnwys teledu sydd wedi'i ddarparu gennym ni, byddwn ni'n darparu'r drwydded deledu felly nid oes angen ichi bryderu. Fodd bynnag, os ydych chi'n dod â theledu/dyfais ychwanegol gyda chi i'w defnyddio yn eich ystafell, byddwch angen eich Trwydded eich hun. Os teimlwch nad oes angen trwydded deledu arnoch, rhaid ichi ddatgan yr wybodaeth hon ar wefan TV Licensing. I gael gwybod mwy, ewch i **www.tvlicensing.co.uk.**

## Post

Bydd eich post yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i'ch bloc, eich fflat neu'ch tŷ. Mae'n hollbwysig bod yr anfonwr yn cynnwys eich cyfeiriad post llawn, gan gynnwys y cod post – mae'r manylion ar gael ar y **wefan Post**. Os na ddefnyddir y cyfeiriad cywir, ni fydd y post yn cael ei ddosbarthu ac fe'i hanfonir yn ôl at yr anfonwr.

Bydd parseli'n cael eu dosbarthu gan y Post Brenhinol neu'r cwmni cludo yn uniongyrchol i'ch bloc, eich fflat neu'ch tŷ. Mae manylion llawn am y dull o ddosbarthu parseli, ar draws pob Neuadd Breswyl, i'w gweld ar ein **gwefan Post.**

Yn anffodus, ni allwn dderbyn parseli ar eich rhan. Gwneir unrhyw drefniadau danfon parseli rhyngoch chi a'r cwmni danfon. Nid ydym yn gyfrifol am unrhyw barseli sy'n cael eu danfon i'r man anghywir neu'n mynd ar goll; felly, os cewch unrhyw broblemau o ran derbyn post, bydd angen ichi gysylltu â'r Post Brenhinol neu'r cwmni / y cludwr yn uniongyrchol. Rydym yn caniatáu mynediad i gwmnïau danfon i ddrysau'r blociau perthnasol i gael defnyddio'r blwch llythyrau.

Bydd unrhyw bost sy'n cyrraedd ar ôl i chi symud allan yn cael ei anfon yn ôl at yr anfonwr. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n **gwe-ddalen Post.**

## Gwres, Dŵr Poeth a Goleuadau

Mae eich Ffioedd Llety yn cynnwys eich holl gyfleustodau hanfodol.. I weld yr amserau gwresogi a dŵr poeth yn eich neuadd, ewch i'r **weddalen Gwresogi a Dŵr Poeth.**

## Rhyngrwyd

Mae eich Ffioedd Llety yn cynnwys mynediad i'r rhyngrwyd drwy soced gwifrog Ethernet ymhob ystafell wely a'n rhwydwaith diwifr (eurodram). Cewch wybodaeth am y gwasanaeth hwn, a sut i gysylltu'ch dyfeisiau â'r rhwydwaith, ar **dudalen y Gwasanaethau Gwybodaeth.**

## Yswiriant

Mae eich Ffioedd Llety hefyd yn cynnwys Yswiriant Eiddo Personol. Mae'r eitemau yn eich ystafell wedi'u hyswirio rhag tân, lladradau a llifogydd. I gael rhagor o wybodaeth am yswiriant, gan gynnwys yr hyn sydd wedi'i gynnwys, gwerth yswiriedig yr eitemau a sut i ymestyn y polisi a'i deilwra i'ch anghenion chi, ewch i'r **wefan Byw yn ein Llety.**

## Canolfannau Dysgu ac Ystafelloedd y Gellir eu Harchebu

Mae gennym amrywiaeth o Ganolfannau Dysgu (ar agor 24/7) ac ystafelloedd y gallwch eu harchebu i'w defnyddio am ddim. I gael gwybod mwy, ewch i'r **wefan Mannau Cymdeithasol, Ardaloedd Astudio ac Ystafelloedd y Gellir eu Harchebu.**

## Golchi Dillad

Mae golchdy ar gael yn: Cwrt Mawr, Rosser C, Rosser G (i breswylwyr Rosser G yn unig), Bloc Cyfleusterau Pentre Jane Morgan, Pantycelyn (i breswylwyr Pantycelyn yn unig), a Fferm Penglais (x3).

Cewch ddefnyddio'r peiriannau drwy app ffôn neu gerdyn credyd / debyd.

I gael cyngor a mwy o fanylion am y golchdai, ewch i'r **weddalen Golchi Dillad.**



### papur/cardbord

✓

- Papur
- Cardbord
- Cerdyn
- Papur swyddfa
- Amlenni
- Papurau newydd
- Llyfrynnau
- Catalogau
- Cylchgronau

✗

- Gwastraff bwyd neu hylifau
- Bagiau Jiffy
- Amlenni wedi eu padio
- Swigod lapio
- Bagiau plastig neu lapio
- Cartonau bwyd a diod
- Cwpanau coffi
- Hancesi papur neu dywelion
- Papur wedi'i rwygo'n fân




### plastig/metel/cartonau

✓

- Tiniau bwyd
- Caniau diodydd ac erosolau gwag
- Ffoil glân
- Poteli plastig
- Potiau
- Tybiau a hambyrddau
- Tetra pak a thiwbiau creision
- Cwpanau coffi
- Cartonau bwyd a diod

✗

- Gwastraff bwyd neu hylifau
- Pecynnau creision
- Papur lapio siocled neu losin
- Gwydr
- Bagiau plastig neu lapio
- Plastigion du



### gwastraff cyffredinol

✓

- Gwastraff na ellir ei ailgylchu



### gwydr

✓

- Gwydr

✗

- Gwydrau yfed
- Pyrex
- Gwydr gwastad
- Gwydr wedi torri
- Poteli neu jariau plastig
- Corciau
- Caniau
- Bagiau



### gwastraff bwyd

✓

- Holl wastraff bwyd heb ei becynnu, gan gynnwys bwyd wedi'i goginio, heb ei goginio ac wedi rhewi

✗

- Esgyrn mawr
- Hylifau
- Pecynnu
- Bagiau plastig neu lapio
- Cwpanau coffi
- Papur cegin neu dywelion papur



# Gwastraff, Ailgylchu a Chynaliadwyedd

Mae biniau yn y ceginau gyfer bwyd, gwydr, ailgylchu a gwastraff cyffredinol. Yna bydd angen i chi fynd â'r gwastraff i'r biniau cywir yn y mannau gwastraff allanol. Dylech roi unrhyw sbwriel o'ch ystafell wely a'ch ystafell ymolchi en-suite (os yw'n berthnasol) yn syth yn y mannau gwastraff allanol ac **NID** ym miniau cymunedol eich fflat/tŷ.

Gweler y siart ar y dudalen nesaf sy'n dangos yr hyn y cewch ei ailgylchu – dylech roi popeth nad yw ar y siart neu nad oes modd ei ailgylchu gyda'r gwastraff cyffredinol. Am mwy o wybodaeth, ewch i'r **tudalen we gwastraff ac ailgylchu**.

## Cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Aberystwyth

Rydyn ni'n byw trwy argyfwng hinsawdd. Yn Aberystwyth, rydym yn arwain y sector gyda'n huchelgais i ddod yn gampws carbon niwtral erbyn 2030. Bydd pob cam bach y gallwch chi ei gymryd yn helpu wrth i ni weithio tuag at y targed uchelgeisiol hwn.

## Helpwch ni i leihau ein heffeithiau amgylcheddol

Daw'r rhan fwyaf o allyriadau carbon deuocsid y Brifysgol o wresogi, defnyddio trydan a theithio. Gall y camau gweithredu yn y rhestr ganlynol helpu i leihau ein heffeithiau amgylcheddol:

- Gwnewch yn siŵr nad yw eich rheiddiaduron wedi'u rhwystro a bod ganddynt lif aer da
- Trowch y rheiddiaduron i lawr pan nad ydych yno
- Cadwch eich ffenestri ar gau cymaint â phosibl i helpu i gadw'r gwres i mewn
- Berwch y mesur o ddŵr sydd ei angen arnoch yn unig
- Diffoddwch oleuadau a chyfarpar pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Defnyddiwch gaead ar sosbenni
- Rhowch lwythi llawn yn y peiriant golchi
- Cymerwch gawodydd byrrach
- Defnyddiwch drafnidiaeth gyhoeddus, cerddwch neu feicio
- Cyfrifwch eich ôl troed carbon i nodi ffyrdd eraill o leihau eich effeithiau **https://footprint.wwf.org.uk/**

## Cymryd rhan

Edrychwch ar dudalennau gwe cynaliadwyedd y Brifysgol i gael manylion am yr hyn rydym yn ei wneud a sut y gallwch chwarae rhan. **https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/sustainability/**

# Disgwyliadau

A chithau'n aelod o'r Brifysgol, ac yn byw yn llety'r Brifysgol, disgwylir i chi weithio ac ymddwyn, yn y sefydliad a thu hwnt, mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu gwerthoedd y Brifysgol, a bod yn ystyriol o eraill a dangos parch tuag atynt bob amser. I'ch cefnogi i gynnal amgylchedd byw da, rydym wedi creu **Canllaw Byw yn y Gymuned** sydd ag awgrymiadau defnyddiol am fyw gydag eraill ac sydd hefyd yn amlinellu ein proses datrysiad cynnar ar gyfer pryderon ynghylch byw gydag eraill.

## Sŵn

Gall gormod o sŵn fod yn un o brif achosion gwrthdaro rhwng preswylwyr yn eu llety. Gofynnwn i chi wneud cyn lleied o sŵn â phosib rhwng 23:00-08:30 a bod yn arbennig o ystyriol yn ystod cyfnodau arholiadau.

## Ysmygu

Mae holl adeiladau'r Brifysgol yn ardaloedd dim ysmygu, ac mae hynny'n cynnwys e-sigarennau. Os ydych yn ysmygu y tu allan, rhaid i chi sefyll o leiaf 10 metr oddi wrth yr adeilad ac unrhyw ffenestri er mwyn sicrhau na fydd arogl y mwg yn mynd i mewn i'r adeilad, a gofynnir i chi ddefnyddio'r biniau sigaréts a ddarperir, yn unol â pholisi ysmygu PA; gweler y **Polisi Ysmygu** i gael rhagor o wybodaeth.

## Alcohol

Wrth yfed alcohol yn eich llety, cofiwch barchu eich cydletywyr. Gall sŵn fod yn broblem fawr pan fydd pobl yn yfed. Cofiwch hefyd nid pawb sy'n yfed alcohol ac na ddylid rhoi pwysau arnynt i wneud hynny.

## Cyd-fyw

Dylai byw gyda phobl eraill yn y brifysgol fod yn brofiad gwych ac mae'n rhan bwysig o fywyd myfyriwr. Yma yn Aberystwyth, mae cymuned fawr ac amrywiol o bobl o bob cefndir. Gall eich ymddygiad effeithio'n fawr ar bobl eraill felly meddyliwch am y ffordd rydych yn ymddwyn. Gall tensiynau bach ddod i'r wyneb yn sydyn a thyfu'n broblemau mawr ymhen dim. Os cewch unrhyw drafferth gyda phreswylwyr eraill fe'ch cynghorir i siarad â nhw'n gyntaf, ond os nad yw hynny'n bosib neu os nad yw'r sefyllfa'n gwella, gofynnwch i aelod o'r staff am gyngor.

## Ymwelwyr

Mae croeso i ymwelwyr aros yn eich llety os cedwir at yr amodau canlynol:

- Rhaid **cofrestru** ymwelwyr cyn 4pm bob dydd os ydynt am aros, a rhaid i westeion penwythnos gael eu cofrestru cyn 3pm ar ddydd Gwener.
- Rhaid i ymwelydd dros nos fod yn hŷn na 18 oed.
- Ni chaniateir i fwy nag 1 ymwelydd aros ar yr un pryd.
- Dim ond am gyfnod hyd at dair noson yn olynol y caniateir i ymwelydd aros, ac ni chaniateir iddo ddychwelyd o fewn cyfnod o saith niwrnod.
- Rhaid i ymwelwyr aros yn eich ystafell, nid mewn unrhyw ardaloedd cymunedol.
- Rhaid i'r holl ymwelwyr cofnodi i gofnodi eu bod yno, er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a Thân. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r **dudalen Byw yn un o'r Neuaddau ar y we**.
- Chi sy'n gyfrifol am eich gwestai a rhaid ichi beidio â'i adael heb arolygaeth. Os byddwch yn torri'r Contract Meddiannaeth mewn unrhyw fodd, chi fydd yn gyfrifol am ei weithredoedd.
- Dylech drafod y ffaith fod arnoch eisiau i ymwelydd ddod i aros â'ch cyd-letywyr yn eich fflat / tŷ, a hynny cyn i'r ymwelydd gyrraedd.

Os methwch gydymffurfio â'r uchod, gallem wrthod eich cais i gael ymwelydd i aros. Os bydd materion yn codi dro ar ôl tro, megis gwrthod ymwelwyr, ymwelwyr yn aros heb gael eu cofrestru, ac ymwelwyr yn bod yn swnllyd ac yn creu trafferth, mae'n bosibl y gwaherddir chi rhag cael ymwelwyr i aros gyda chi.'

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i newid, diwygio ac addasu'r gofynion hyn ar unrhyw adeg ac ni roddir unrhyw rybudd am hyn.



# Glanhau ac Archwiliadau

Rhaid i chi, eich cydletywyr a ninnau gadw'r holl ardaloedd y tu mewn a'r tu allan i'ch llety'n arbennig o lân. Bydd offer sylfaenol fel hwfer a mop ar gael i chi. Eich cyfrifoldeb chi yw prynu eich nwyddau glanhau eich hun.

## Eich ystafell

Chi sy'n llwyr gyfrifol am gadw eich ystafell yn lân ac yn daclus bob amser. Os oes gennych ystafell en-suite bydd yn rhaid i chi gadw'r ystafell ymolchi'n lân hefyd.

## Ardaloedd cymunedol

Mewn neuaddau hunanarlwyo, rhaid i bawb yn y tŷ neu'r fflat lanhau'r ardaloedd cymunedol megis y ceginau, y coridorau a'r ystafelloedd ymolchi. Yn y neuaddau arlwyo, byddwch yn rhannu cegin â chriw o fyfyrwyr eraill. Gyda'ch gilydd, chi fydd yn gyfrifol am lanhau'r gegin. Mae hynny'n cynnwys arwynebau gweithio, yr oergell, y ffwrn a'r biniau (lle bônt yn berthnasol). Mae llunio rota lanhau, a glynu ati, yn ffordd dda o gadw eich ardaloedd cymunedol yn lân. Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch i wneud hyn, cysylltwch â'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol.

## Tamprwydd a Llwydni

Mae tyfiant llwydni ac anwedd yn eich ystafell yn arwyddion gweladwy bod yr aer yn eich ystafell yn rhy wlyb.

Dyma rai awgrymiadau ar sut i atal llwydni:

1. Mae angen i chi awyru eich ystafell wely yn rheolaidd drwy agor y ffenestr a'r awyrell. Bydd hyn yn lleihau'r lleithder sy'n cronni yn eich ystafell.
2. Gallwch brynu amsugnwr lleithder silff ffenestr (Dadleithydd) i leihau croniad o ddŵr.
3. Mae'n bwysig agor eich llenni i adael golau i fewn i'r ystafell wely.
4. Sicrhewch fod eich rheiddiaduron ymlaen yn ystod yr amseroedd gwresogi penodol. Bydd hyn yn cadw'r ystafell yn gynnes ac yn lleihau'r problemau llwydni. Nid oes angen i chi osod y gwres i'r gosodiad uchaf.
5. Peidiwch a sychu dillad tamp yn eich ystafell wely, gall hyn hefyd achosi problemau a llwydni i gronni. Byddai'n well defnyddio'r sychwyr dillad yn y golchdy.
6. Gwnewch yn siŵr bod y ffan echdynnu yn eich ystafelloedd ymolchi a'ch ceginau yn gweithio.
7. Os oes gennych len cawod, gellir ei olchi yn y Golchdy. Ystyriwch wneud hynny o bryd i'w gilydd er mwyn ei gadw'n ffres ac yn lân.
8. Cadwch eich ystafelloedd gwely, ceginau a'r ystafelloedd ymolchi yn lân. Os gwelwch arwyddion o lwydni ceisiwch ei lanhau cyn gynted a phosib gyda glanhawr priodol.

## Ardaloedd allanol

Rhaid i chi hefyd sicrhau bod yr ardaloedd yn union y tu allan i'r bloc yn lân, heb sbwriel na bonion sigaréts. Defnyddiwch y storfeydd biniau allanol a'r biniau sbwriel a'r biniau sigaréts a ddarperir.

## Ein cyfrifoldeb ni

Os ydych chi'n byw mewn bloc o fflatiau byddwn yn glanhau'r ardaloedd cymunedol y tu allan i'ch fflat (coridorau, grisiau, mynedfeydd ac ati). Mae'n bosib y gwelwch y tîm glanhau yn ystod yr wythnos ac mae'n bosib y byddant yn dod i mewn i'ch llety weithiau i ddefnyddio offer y Brifysgol, fel hwfer. Yn Neuadd Pantycelyn, sy'n neuadd arlwyo, byddwn yn glanhau'r ardaloedd cymunedol (y cynteddau, y grisiau, y coridorau a'r mannau cymdeithasol ar y llawr gwaelod).

## Archwiliadau

Cynhelir archwiliadau i asesu glendid eich llety ac i ymdrin ag unrhyw faterion cynnal a chadw, tân neu iechyd a diogelwch i sicrhau eich bod yn ddiogel bob amser.

## Archwiliadau Cymunedol

Bydd hyn yn digwydd drwy gydol y Contract Meddiannaeth. Bydd aelod o'r staff yn archwilio'r ardaloedd cymunedol yn eich llety, ee, cegin a rennir, ystafelloedd ymolchi a rennir ayb.

## Archwilio'r ystafelloedd gwely

Bydd hyn yn digwydd drwy gydol y Contract Meddiannaeth. Bydd aelod o'r staff yn archwilio eich ystafell wely a'r cyfleusterau en-suite (os yw hynny'n berthnasol).

## Methu archwiliad

Os methwch archwiliad, mae'n bosib y trefnir un arall (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau). Anfonir canlyniad yr ail archwiliad i'ch cyfeiriad e-bost Aberystwyth. Os byddwch chi a/neu eich cydletywyr yn methu am yr eildro, bydd y Brifysgol yn gweithio gyda chi i ymdrin â'r sefyllfa; os bydd unrhyw gostau ynghlwm wrth hyn, efallai y codir tâl arnoch am gost cywiro unrhyw fethiant. Ar gyfer unrhyw ardaloedd cymunedol, bydd unrhyw daliadau yn cael eu rhannu rhwng holl drigolion y fflat / tŷ. Efallai bydd eich ystafell a/neu'ch fflat yn cael eu harchwilio'n fwy rheolaidd ac mae'n bosib y cymerir camau disgyblu.

I gael gwybod mwy am lanhau ac archwiliadau, ewch i'r **wefan Byw yn ein Llety** (cyfeiriwch at Atodiad 5).

## Difrod

Noder mai'r preswylwyr sy'n gyfrifol am:

- y gost o atgyweirio neu amnewid unrhyw Gynnwys sydd wedi'i ddifrodi
- cyfran gyfartal (wedi'i rhannu rhwng preswylwyr y Fflat/Tŷ) o'r costau atgyweirio / amnewid ar gyfer unrhyw ddifrod i'r Fflat/Tŷ neu'r Ardaloedd Cyffredin neu eu cynnwys lle na ellir adnabod y preswylydd/preswylwyr a achosodd y difrod.

# Diogelwch Personol

Mae Aberystwyth yn cael ei chydnabod fel un o'r trefi prifysgol mwyaf diogel a chyfeillgar yn y wlad. Er hynny, mae rhai pethau y mae angen i chi eu gwybod er mwyn bod yn ddiogel:

## Diogelwch cyffredinol

- Ceisiwch aros ar strydoedd prysur lle mae digon o olau gyda'r nos.
- Cerddwch adref gyda ffrindiau pan fo hynny'n bosib.
- Peidiwch â dangos unrhyw eiddo gwerthfawr.
- Byddwch yn wyliadwrus bob amser.
- Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn gwybod ble rydych chi ac i ble rydych yn mynd.
- Cofiwch gloi pob drws a ffenest. Os na fyddwch yn cloi eich drws, ni fydd eich yswiriant eiddo personol yn weithredol.
- Cadwch draw o'r traethau ac o lan y môr pan fo'r tywydd yn wael. Gwrandwch ar y rhybuddion ac ewch i'n gwe-ddalennau Diogelwch yn y Dŵr a Thywydd Gwael i gael rhagor o wybodaeth.

## Diogelwch trydanol

- Peidiwch â gorlwytho gwifrau estyn (extension cables) a/neu declynnau addasu a gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u ffiwsio. Os ydych yn dod â'r eitemau hyn o dramor, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r foltedd cywir a bod maint y plwg yn gywir. Gweler ein **tudalen Diogelwch Trydanol a Phrofion PAT** ar y we am ragor o wybodaeth.
- Peidiwch â defnyddio offer cegin trydanol yn eich ystafell wely – bydd hynny'n torri amodau eich Contract Meddiannaeth.
- Cofiwch ddarllen y cyfarwyddiadau perthnasol ar gyfer pob eitem. I gael gwybod mwy, ewch i'r **wefan Byw yn ein Llety.**

## Profi Dyfeisiau Cluddadwy (PAT)

I'n helpu ni i reoli diogelwch tân, bydd yn rhaid i bob eitem drydanol sydd dros 12 mis oed gael prawf PAT cyn y cewch ei defnyddio yn Llety'r Brifysgol. Mae'n ofynnol i chi gael profion PAT ar gyfer yr eitemau cyn cyrraedd, fel y byddwch yn gwybod eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Ni chaniateir defnyddio unrhyw eitemau trydanol sy'n hŷn na 12 mis oed ac nad ydynt wedi cael prawf PAT yn y llety. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd unrhyw eitemau trydanol sydd heb gael prawf PAT neu na ellir profi eu bod yn iau na 12 mis oed yn cael eu symud o'ch llety. Yna fe'u cedwir ichi eu casglu ar ddiwedd eich Contract Meddiannaeth. Am ragor o wybodaeth, gweler ein **tudalen Diogelwch Trydanol a Phrofion PAT.**

Bydd Adroddiadau Cyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR) a Thystysgrifau Diogelwch Nwy ar gyfer eich llety penodol yn cael eu anfon atoch o fewn 14 diwrnod ar ol i chi symud i fewn.



# Diogelwch Tân

Y perygl mwyaf i fyfyrwyr sy'n **byw mewn llety preswyl** yw tân. Yn syth ar ôl cyrraedd, dylech ddarllen yr arwydd yn eich ystafell sy'n dweud beth i'w wneud os bydd tân.

Os ceir hyd i eitem sy'n cael ei hystyried yn beryglus a/neu wedi'i gwahardd yn eich llety, byddwn yn mynd â'r eitem oddi yno ac yn rhoi derbynneb eitemau wedi'u cymryd ymaith i chi. Yna, bydd Tîm Rheoli Preswylfeydd yn cysylltu â chi. I gael gwybod mwy, ewch i'r **wefan Byw yn ein Llety.**

## Camau diogelu rhag tân

Mae synhwyrydd mwg a/neu wres ym mhob adeilad. Mae ffaniau echdynnu (lle bo hynny'n berthnasol) yn y ceginau a'r ystafelloedd ymolchi, a disgwylir i chi eu defnyddio pan fo'u hangen. Mae blancedi tân yn y ceginau i'w defnyddio ar danau coginio. Mae drysau tân ym mhob adeilad a fydd yn cau'n awtomatig ac yn atal tân a mwg rhag lledu. Mae'r dodrefn a ddarperir yn eich llety'n cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.

Mae offer diffodd tân ym mhob llety er mwyn ymdrin â thanau bach. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i chi defnyddio diffoddydd heblaw bod llwybr dianc clir ar gael i chi a'ch bod yn gallu defnyddio'r diffoddydd yn hyderus. Mae'r cyfarwyddiadau wedi'u hargraffu ar ochr y diffoddydd ond mae'n fwy diogel i chi adael yr adeilad os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud. Peidiwch â defnyddio diffoddydd dŵr ar offer trydanol.

## Larymau/ymarferion tân

Mae'r larymau tân yn cael eu profi'n wythnosol ym mhob adeilad er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Mae amserlen profi'r larymau ar gael ar y **wefan Byw yn ein Llety.** Os bydd y larwm yn canu ar unrhyw adeg arall, rhaid i chi adael yr adeilad. Os yw'r larwm yn canu'n ddi-dor, hyd yn oed yn ystod prawf, rhaid i chi adael yr adeilad.

Os gwelwch dân, seiniwch y larwm yn syth drwy dorri'r gwydr, gadewch yr adeilad ac yna ffonio 999.

Yn rhan o'n cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Universities UK (UUK), rhaid i'r Brifysgol gynnal ymarferion tân yn ystod y cyfnod pan fyddwch yn byw gyda ni. Gall methu â gadael yr adeilad arwain at gamau disgyblu. Mae gan rai preswylfeydd system rag-larwm ychwanegol. I weld os oes gan eich llety system rybudd, ewch i **weddalen Byw yn un o'r Neuaddau.**



## Drysau Tân

I sicrhau diogelwch y preswylwyr yn adeiladau'r Brifysgol lle ceir dau eiddo domestig neu fwy, a lle ceir ardaloedd cyffredin y bydd y preswylwyr angen eu defnyddio i adael yr adeilad mewn argyfwng. Mae'r wybodaeth ganlynol am ddrysau tân yn cael ei darparu i wella diogelwch preswylwyr yr adeilad.

Mae gan ddrysau tân sawl diben ac maent yn ddrysau sydd wedi'u llunio'n arbennig i atal tân am gyfnod. Mae drysau tân yn gweithio yn rhan o system ac iddi sawl haen i amddiffyn rhag tân mewn adeilad, a hynny er mwyn:

- Amddiffyn llwybrau dianc rhag effeithiau tân fel y gall y sawl sydd yn yr adeilad gyrraedd allanfa yn y pen draw;
- Amddiffyn defnyddwyr yr adeilad, diffoddwyr tân, a chynnwys a/neu strwythur adeilad drwy gyfyngu ar ledaeniad tân. Er mwyn sicrhau diogelwch, rhoddir y cyngor canlynol.
- Dylid cadw drysau tân ar gau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Mae drws tân yn gwbl ddiwerth os yw'n cael ei ddal ar agor neu os na ellir ei gau'n llwyr.
- Ni ddylai'r preswylwyr na'u gwesteion ymyrryd â'r dyfeisiau sy'n galluogi i'r drysau gau ar eu pen eu hunain.
- A yw'r ddyfais sy'n galluogi i'r drws gau ar ei ben ei hun wedi'i gosod yn gywir ar y drws ac ar y ffrâm y drws?
- Chwiliwch am unrhyw ddifrod ac unrhyw olew sy'n gollwng.
- A oes unrhyw ddifrod amlwg i'r fraich gyswllt ac i'r gosodiadau ar bob pen iddi?
- Sicrhewch fod y drws yn cau'n dynn yn ei le a ddim yn cael ei atal gan y llawr na'r ffrâm.
- Gwiriwch fod yr holl golfachau wedi'u gosod yn gadarn (tri neu fwy ohonynt), ac nad oes unrhyw sgriwiau ar goll neu wedi torri.
- Edrychwch i weld a yw'r sêl wedi chwyddo o gwmpas y drws neu'r ffrâm. Gwiriwch fod y sêl yn gyfan ac nad oes unrhyw arwydd o ddifrod iddi.
- A yw'r rhimyn o amgylch y gwydr wedi'i lynu'n dda at y drws a ddim wedi cael ei ddifrodi?
- A gafwyd unrhyw newidiadau neu ddifrod i'r man lle ceir gwydr neu'r twll awyr yn y drws?
- A yw'r gwydr wedi'i ddifrodi neu wedi cracio?
- Rhowch wybod ar unwaith i ddesg gymorth y campws / person cyfrifol am unrhyw ddiffygion neu ddifrod i ddrysau.

# Gadael yr Adeiladau

Os ydych yn meddwl y bydd hi'n anodd i chi adael yr adeilad mewn argyfwng, mae'n bosib y bydd angen Cynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng ('PEEP') arnoch, neu efallai y bydd angen gwneud addasiadau eraill. A allwch chi glywed y larwm tân ymhob sefyllfa (e.e. tra byddwch yn cysgu neu'n cael cawod)? A allwch chi symud at y grisiau yn hawdd os clywch chi'r larwm tân? A allwch chi fynd i lawr y grisiau yn hawdd a chyflym, heb gymorth? Os mai 'na' oedd eich ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, cysylltwch â'r **Gwasanaeth Hygyrchedd** i drafod eich PEEP neu'r addasiadau y dylid eu gwneud ar eich cyfer. Os na fyddwch yn datgelu materion hygyrchedd sylweddol efallai y cewch eich rhoi mewn llety anaddas, ac fe allai olygu y byddwch yn torri eich contract meddiannaeth.

## Storio

Ni ddylech gadw neu storio eitemau, gan gynnwys beiciau, mewn coridorau, ar risiau neu lle maent yn rhwystro drysau. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol er mwyn eich cadw'n ddiogel ac er mwyn sicrhau bod y llwybrau dianc yn cael eu cadw'n glir. Os ydych am ddod â beic i'r Brifysgol, mae gennym nifer o lefydd diogel dan do o gwmpas ein neuaddau preswyl er mwyn ichi eu storio'n ddiogel. I gael rhagor o wybodaeth am storio eich beic yn ddiogel, ewch i'n **tudalen Byw yn ein Llety.**

## Offer a dyfeisiau bach wedi'u pweru gan fatris lithiwm-ïon

Mae'r ystod cynyddol o offer trydanol cludadwy, ynghyd â datblygiadau mewn technoleg a newidiadau mewn ymddygiad cymdeithasol wedi creu galw cynyddol am ffynonellau pŵer symudol. Mae batris y gellir eu hailwefru i'w cael mewn ffonau symudol, gliniaduron a chyfrifiaduron tabled, radios, E-sigaréts ac Anweddwyr (vapes) ac ar gyfer llawer o gymwysiadau eraill. Mae nifer o ddigwyddiadau ledled y byd wedi bod yn gysylltiedig â batris yn achosi mwg, tân, gwres eithafol neu ffrwydradau.

Noder na chaniateir e-feiciau nac e-sgwteri yn unrhyw un o adeiladau llety'r brifysgol, gan gynnwys i wefru'r batri.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y cyfarwyddiadau defnyddio perthnasol ar gyfer pob offer. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i Diogelwch Tân: Llety.

### Cofiwch:

- Peidiwch â gosod rhywbeth i gadw drws tân ar agor.
- Gwnewch yn siŵr nad oes braster na saim ar y ffwrn na'r gril; mae llosgi braster yn creu mwg. Gair i gall: rhowch bapur arian ar waelod y badell grilio.
- Agorwch y ffenest / awyrell ffenestr wrth goginio.
- Peidiwch byth â gadael bwyd sy'n coginio nac offer trydanol sydd wedi'u cynnau heb neb yn gofalu amdanynt.
- Peidiwch byth â choginio pan fyddwch wedi blino neu dan ddylanwad alcohol/cyffuriau.
- Peidiwch â rhoi gwrthrychau metel, megis cyllyll a ffyrc ac ati, yn y popty ping na'r tostiwr.
- Rhowch y ffan echdynnu (lle bo hynny'n berthnasol) ar waith wrth goginio neu gael cawod.
- Cadwch erosolau, sychwyr/sythwyr gwallt oddi wrth synwyryddion gwres.
- Cadwch ddrysau'r gawod ar gau wrth gael cawod ac ar ôl gorffen er mwyn atal y stêm rhag dianc.
- Peidiwch ag ymyrryd â larymau mwg/tân nac offer tân. Rhowch wybod i'r staff yn syth os oes rhywbeth wedi torri.



## Hysbysiad am weithredu os oes tân

### Os byddwch yn darganfod tân:

1. Seiniwch y larwm tân yn ddi-oed gan ddefnyddio un o'r mannau larwm tân (MCP).
2. Gadewch yr adeilad gan ddefnyddio'r allanfa ddiogel agosaf. Ceir arwyddion 'allanfa dân' i ddangos y llwybrau hyn.
3. Peidiwch â defnyddio'r lifftiau.
4. Ewch allan o'r adeilad a mynd i'r man ymgynnull.
5. Dim ond os ydynt gerllaw y dylech gasglu mân bethau gwerthfawr a chôt.
6. Peidiwch ag aros i gasglu gweddill eich eiddo personol.
7. Ewch â'ch ffrindiau, eich cydweithwyr a'ch cyd-fyfyrwyr gyda chi.
8. Os oes modd, caewch ddrysau a ffenestri er mwyn arafu lledaeniad y mwg, ond dim ond os na fydd hyn yn peri oedi sylweddol wrth i chi ddianc.
9. Peidiwch â mynd yn ôl i mewn i'r adeilad hyd nes y cewch wybod ei bod yn ddiogel ichi wneud hynny.
10. Dim ond aelodau o staff sydd wedi cael eu hyfforddi ddylai geisio diffodd y tân, a dim ond os ydynt o'r farn ei bod yn ddiogel iddynt wneud hynny.
11. Ffoniwch y Gwasanaeth Tân ac Achub o leoliad diogel trwy ddeialu 999.

### Os clywch y larwm:

1. Gadewch yr adeilad gan ddefnyddio'r allanfa ddiogel agosaf.
2. Ewch allan o'r adeilad a mynd i'r man ymgynnull.
3. Peidiwch â defnyddio'r lifftiau.
4. Dim ond os ydynt gerllaw y dylech gasglu mân bethau gwerthfawr a chôt.
5. Peidiwch ag aros i gasglu gweddill eich eiddo personol.
6. Ewch â'ch ffrindiau, eich cydweithwyr a'ch cyd-fyfyrwyr gyda chi.
7. Peidiwch â mynd yn ôl i mewn i'r adeilad hyd nes y cewch wybod ei bod yn ddiogel ichi wneud hynny.




## Bywyd Preswyl #Bywydaberlife

Mae ffocws Bywyd Preswyl yn ymwneud â chi. Mae ein Cynorthwywyr Preswyl (CP) yn gyd-fyfyrwyr sydd yma i roi cymorth ac arweiniad i chi drwy gydol eich arhosiad yn ein Neuaddau Preswyl. Gall symud i rywle newydd a dechrau yn y brifysgol fod yn brofiad brawychus i lawer, ond yma yn Aberystwyth mae ein Cynorthwywyr Preswyl yma i sicrhau bod y cyfnod o drawsnewid i fywyd prifysgol mor llyfn â phosibl ac maent yn anelu'n barhaus at greu amgylchedd byw a dysgu cadarnhaol a meithrin ymdeimlad o gymuned ar draws y brifysgol.

Mae eich Cynorthwywyr Preswyl bob amser yn hapus i helpu, p'un ai ydych yn dod ar draws mater sy'n ymwneud â'ch llety, eich academyddion, eich diogelwch neu'ch bywyd personol. Maent yma i'ch cyfeirio i'r cyfeiriad cywir i gael y cymorth mwyaf perthnasol ac rydym bob amser yn awyddus i fod yn help llaw. Gall hyn gynnwys canllawiau ar ddatrys anghydfodau yn eich fflatiau, sut i fynd i'r afael â straen arholiadau, gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau yr ydym yn eu cynnal neu'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal leol, neu ble i gael y baned orau yn Aber!

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud helo wrth y tîm! Maen nhw'n griw cyfeillgar a byddwch chi'n eu gweld o amgylch eich neuaddau drwy gydol y flwyddyn. Cewch luniau ohonynt ar yr hysbysfwrdd ar lawr gwaelod eich bloc, cadwch lygad ar yr hysbysfwrdd gan y byddwn yn ei ddiweddaru drwy gydol y flwyddyn gyda gwybodaeth a digwyddiadau pwysig. Gallwch hefyd gysylltu â ni ar Facebook ac Instagram.

Linktree:

# Iechyd a Chymorth

Mae'r Brifysgol yma i'ch helpu ag unrhyw faterion neu bryderon sydd gennych. Rydym am sicrhau eich bod yn teimlo'n dda – yn gorfforol ac yn feddyliol.

Mewn argyfwng meddygol ffoniwch 999.

## Cofrestru â meddyg teulu

Rydym yn eich cynghori i gofrestru â meddyg teulu lleol cyn gynted â phosib er mwyn i chi allu cysylltu â'r meddyg os byddwch yn sâl.

Mae amryw o feddygfeydd ar gael yn Aberystwyth, p'un a ydych yn byw ar y campws neu yn y dref.

## Brechiadau

Rydym yn argymell y dylech fod wedi cael y brechiadau arferol canlynol cyn cyrraedd, os yw'n bryd i chi eu cael: covid, llid yr ymennydd (MenACWY), MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela), difftheria, polio, tetanws a'r feirws papiloma dynol (HPV). Rydym yn argymell hefyd y dylai myfyrwyr o wledydd lle ceir llawer o achosion o dwbercwlosis gael eu brechu rhag TB.

## Myfyrwyr sydd â chyflyrau iechyd parhaus

Os oes gennych gyflwr iechyd parhaus, dylech ystyried unrhyw angen i allu cysylltu ag arbenigwr iechyd y maes hwn, a sicrhau eich bod yn dod â gwerth mis o'ch meddyginiaeth ddiweddaraf gyda chi, a dylech ystyried sut y byddwch yn storio eich meddyginiaeth ac yn cael gwared ag offer (megis EpiPens) yn ddiogel. Cysylltwch â ni i gael cyngor am y mater hwn.

## Lles Myfyrwyr

Mae Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr yn cynnig adnoddau amrywiol i gynorthwyo myfyrwyr drwy gydol eu hamser ym Mhrifysgol Aber. Mae eu gwefan yn darparu mynediad at wybodaeth ddefnyddiol ac opsiynau cymorth lleol sydd ar gael 24/7. O fewn y Gwasanaethau Myfyrwyr, mae tîm ymroddedig o Ymarferwyr Lles a Iechyd Meddwl yn barod i fynd i'r afael â phryderon lles myfyrwyr a'u cyfeirio at wasanaethau lleol priodol os oes angen. Os oes arnoch angen cymorth, llenwch ffurflen gofrestru ar-lein. Hefyd, os oes gennych bryderon am fyfyriwr arall, gallwch gyflwyno ffurflen 'mynegi pryder', a bydd ymarferydd yn cysylltu i drafod yr opsiynau cymorth sydd ar gael i helpu i fynd i'r afael â'u sefyllfa.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ffurfio partneriaeth â Health Assured i gynnig **Wisdom Wellbeing** - gwasanaethau cymorth cyfrinachol am ddim sydd ar gael unrhyw bryd, dydd neu nos, drwy gydol y flwyddyn - https://www.aber.ac.uk/en/studentservices/wellbeing/health-assured/#wisdom-app

## Hygyrchedd a Chynhwysiant

Mae'r Gwasanaeth yn rhoi cyngor a gwybodaeth i fyfyrwyr a chanddynt gyflyrau iechyd cronig a pharhaus, anableddau corfforol a/neu synhwyraidd, gwahaniaethau dysgu penodol (e.e. dyslecsia) neu awtistiaeth. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo myfyrwyr i gyflwyno unrhyw addasiadau rhesymol sy'n angenrheidiol ar gyfer y llety neu i'w cynorthwyo i gael mynediad i'w cwrs a gall hefyd gynghori ynghylch opsiynau cyllido megis y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA).

I gysylltu â Chynghorwr Hygyrchedd ebostiwch **hygyrchedd@aber.ac.uk**

## Cyngor ac Arian

Mae'r Gwasanaeth Cyngor ac Arian yn darparu amrywiaeth o gyngor ac arweiniad ar faterion ariannol a allai effeithio arnoch yn ystod eich astudiaethau. P'un a oes angen rhywfaint o arweiniad arnoch ar gyllidebu neu os oes gennych broblem benodol gyda chyllid Myfyrwyr, gall y Cynghorwyr Myfyrwyr achrededig eich helpu i reoli eich arian tra byddwch yn y Brifysgol. Gallant hefyd roi cyngor ar gael mynediad i'r **Gronfa Caledi Myfyrwyr**.

I gysylltu ag un o'r tîm gallwch ffonio 01970621761 neu e-bostio **student-adviser@aber.ac.uk**

## Gwasanaeth Cymorth o ran Aflonyddu a Chamymddwyn

Mae'r Gwasanaeth Cymorth o ran Aflonyddu a Chamymddwyn yma ym Mhrifysgol Aberystwyth ar waith i gefnogi myfyrwyr sydd wedi cael eu heffeithio gan unrhyw fath o gamymddwyn rhywiol, aflonyddu neu drais. Nod y gwasanaeth yw darparu lle diogel a chefnogol, lle gall myfyrwyr gael gafael ar gymorth, teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys tîm o Swyddogion Cyswllt Trais Rhywiol y Brifysgol (SVLO) sydd ar waith i gefnogi myfyrwyr, beth bynnag fo'u profiad. P'un a yw'r camymddwyn rhywiol neu'r trais wedi digwydd yma yn Aberystwyth neu rywle arall yn ddiweddar neu rywbryd yn y gorffennol.

Gallwch ddatgelu adroddiad drwy ein system Cofnodi a Chefnogi yma **adroddachymorth.aber.ac.uk** neu drwy e-bostio **svlo@aber.ac.uk**

## Gwasanaeth Cymorth a chyngor Fisâu

Mae'r Ymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol yn darparu cymorth arbenigol i fyfyrwyr a'u dibynyddion sydd angen cyngor ar Fisâu i ddiogelu eu statws mewnfudo yn y DU, gan gynnwys estyniadau Fisa ac opsiynau ôl-astudio.

Am fwy o wybodaeth ewch i dudalennau'r **Gwasanaeth Cymorth a Chyngor Fisâu** neu e-bostiwch **visaadvice@aber.ac.uk**

## Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ar gael i'ch helpu i gynllunio eich dyfodol. Gall gynnig cyngor, arweiniad a gwybodaeth i holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth – hyd yn oed graddedigion! Gall eich helpu o'r union adeg y byddwch yn cyrraedd drwy gynghori ar swyddi lleol, sut i wneud yn fawr o'ch amser yn y brifysgol a sut i gymryd rhan mewn gweithgareddau a fydd yn rhoi hwb i'ch datblygiad sgiliau, yn gwella eich proffiad academaidd ac yn eich helpu i ymgartrefu ym mywyd y brifysgol yn fwy effeithiol. Beth bynnag fo'ch syniadau am eich gyrfa yn y dyfodol, neu os nad oes gennych syniad o gwbl, gall y Gwasanaeth Gyrfaoedd helpu.

I gael gwybod mwy, ewch i'r **wefan Gyrfaoedd** neu anfonwch e-bost i **gyrfaoedd@aber.ac.uk.**

## Undeb Aberystwyth

Mae Undeb Aberystwyth am i fyfyrwyr Aber garu bywyd myfyriwr! Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod myfyrwyr Aber yn hapus, yn iach a grymus, a bod ganddynt gyfeillion oes a dyfodol addawol. Undeb Aberystwyth yw cartref llais y myfyrwyr, ac mae hefyd yn darparu cefnogaeth a chyfleoedd i chi yn ystod eich taith yn Aber. Dewiswch o blith cyfleoedd dirifedi, boed hynny'n ymuno â chlwb chwaraeon neu gymdeithas, gwirfoddoli neu gynrychioli myfyrwyr eraill. Dyma'r ffordd orau i wneud ffrindiau newydd a rhoi cynnig ar rywbeth newydd; y peth anoddaf yw dewis pa rai!

Mae Gwasanaeth Cynghori Undeb Aberystwyth yn cynnig cyngor cyfrinachol ac annibynnol yn rhad ac am ddim i holl fyfyrwyr Aberystwyth. Gall eu cynghorwyr hyfforddedig eich helpu gydag amrywiaeth o faterion ac maent yn arbenigo mewn darparu cyngor a chymorth ar brosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol. I gael cyngor neu i archebu apwyntiad gallwch gysylltu â chynghorydd yn uniongyrchol drwy lenwi eu ffurflen ymholiad ar-lein. Edrychwch ar **wefan Undeb Aber** i gael mwy o wybodaeth.





## Chwaraeon, Ymarfer Corff, Iechyd a Lles

Mae cadw'n heini yn rhan bwysig o'n bywydau. Gall helpu i'ch cadw chi a'ch meddwl yn iach. Mae'n gyfle gwych i roi cynnig ar rywbeth newydd a dod i adnabod pobl newydd. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig cyfle i chi i ymaelodi â hyd at 150 o glybiau chwaraeon, cymdeithasau a phrosiectau gwirfoddoli.

### Y Ganolfan Chwaraeon a Chromen

Gan eich bod yn byw yn un o'n neuaddau preswyl, cewch Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon **yn rhad ac am DDIM** – sy'n golygu y cewch ddefnyddio hynny a fynnoch ar lawer o adnoddau'r ganolfan. Chwarae, ymarfer corff, cael hwyl, cystadlu neu ymlacio... Mae camp neu weithgaredd sy'n berffaith i chi. Rydym yn fwy na dim ond campfa:

- Cromen Chwaraeon – yn newydd sbon ar gyfer 2024/25. Yn dilyn buddsoddiad o £400m, mae ein Cromen fodern yn gartref i tua 100 o orsafoedd cryfder a chyflyru gydag offer Matrix, peiriannau cardiofasgwlaidd ac ardaloedd codi pwysau ac ymestyn.
- Pwll nofio gyda Saunarium
- BoxRox - wal ddringo dan do
- Stiwdio Feicio i gefnogi dosbarthiadau beicio dan do
- Stiwdio Ddawns i gefnogi 'Ymarfer Grŵp' gyda dosbarthiadau yn amrywio o HIIT, Zumba, ymarferion cylchol, ioga, a llawer mwy o ddosbarthiadau ffitrwydd neu ddosbarthiadau meddwl a chorff.

P'un a eich bod yn mynd i'r gampfa'n aml neu hyn yn rhywbeth newydd i chi, mae gennym ni ddosbarthiadau at ddant pawb – nid yn unig ar gyfer ffitrwydd ond ar gyfer eich lles! Ynghyd â'n cynnig aelodaeth, gallwch logi'r cyrtiau sboncen, neuaddau chwaraeon, cawell chwaraeon, cyrtiau tenis a'r trac rhedeg.

Yn ddiweddar gwnaethom agor ein campfa loeren "24 awr" sydd wedi'i lleoli i lawr y grisiau yn y Ganolfan drws nesaf i Fferm Penglais a PJM. Mae'n llawn offer ffitrwydd o'r radd flaenaf i chi eu mwynhau!

I gael gwybod mwy, ewch i: **sports@aber.ac.uk** neu ffoniwch **01970 622280**.

## Gwasanaethau Croeso

Ym Mhrifysgol Aberystwyth rydym yn darparu ar gyfer amrywiaeth eang o fyfyrwyr, sydd â gwahanol chwaeth, disgwyliadau a gofynion. Rydym yn argymell i chi edrych ar ein tudalennau gwe **Gwasanaethau Croeso: Prifysgol Aberystwyth** am unrhyw ofynion penodol sydd gennych, yn ogystal â'n hamseroedd agor. Mae bwyd ar gael ar y campws 7 diwrnod yr wythnos o'n hamrywiaeth eang o gaffis, bariau, siopau a bwytai.

Ar y prif gampws mae'r Neuadd Fwyd, lle mae prydau wedi'u coginio'n ffres ar gael, ac maent yn cynnig prydau figan, Halal a phrydau rhatach. Mae'r holl fwyd yn cael ei baratoi'n ffres felly dewch draw i siarad â'r cogyddion os oes gennych ofynion deietegol penodol.

Mae gennym hefyd y CAFFIbach ar waelod y campws sy'n cynnig coffi lleol Teifi a Te Welsh Brew fel diodydd poeth arbenigol.

Cofiwch hefyd am adeilad yr Undeb sydd â siop sy'n gwerthu llawer o fyrbrydau a bwydydd parod yn ogystal ag amrywiaeth enfawr o ddillad y brifysgol, deunydd ysgrifennu a nwyddau groser. Mae'r bar Cwtch yn cynnal nifer o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, ac mae'n lle poblogaidd iawn i fwyta rhwng darlithoedd.

Yn y gwasanaethau croeso rydym yn sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer pob deiet gyda bwydydd heb glwten, halal a figan ar gael yn ein holl leoedd bwyd. Rydym hefyd yn awyddus i ddiogelu'r amgylchedd gyda'n camau gweithredu o ran cynaliadwyedd, felly gwiriwch ein haddewidion ar-lein.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn ein lleoedd bwyd yn ystod eich cyfnod yn Aberystwyth.






## Teithio a Pharcio

Mae sawl ffordd o deithio o amgylch Aberystwyth. Tref fach yw hi, ac mae'r rhan fwyaf o gyfleusterau o fewn pellter cerdded. Ond mae ffyrdd eraill o deithio heblaw cerdded.

### Beicio

Mae cymuned feicio frwd yn Aberystwyth. Mae'n ffordd wych o deithio o amgylch y dref! Mae'r Brifysgol yn darparu storfeydd beiciau diogel mewn amryw o neuaddau preswyl er mwyn i chi gael cadw eich beic yn ddiogel gan na chewch ei gadw yn eich ystafell wely nac yn yr ardaloedd cymunedol.

I gael rhagor o wybodaeth am storio'ch beic yn ddiogel, ewch i'n **gweddalen Parcio Beiciau'n ddiogel**

### Bysiau

Mae amryw o wasanaethau bws rheolaidd sy'n gwasanaethu dau brif gampws y Brifysgol ar gael i'r myfyrwyr.

Mae gorsaf drenau y drws nesaf i'r orsaf fysiau, ynghyd â thacsis lleol.

### Ceir, beiciau modur a pharcio

Mae parcio'n gyfyngedig yn Aberystwyth, yn y dref ac ar y campws. Os oes raid i chi gael cerbyd, a'ch bod eisiau parcio ar y campws, bydd angen trwydded barcio arnoch. I gael gwybod mwy neu i ofyn am drwydded, ewch i'r **wefan Parcio.**



# Symud Allan

Efallai bod cyfnod eich contract meddiannaeth wedi dod i ben, neu eich bod yn symud i ystafell arall, neu'n gadael eich llety'n gynt na'r disgwyl. Bydd yn ddrwg gennym ffarwelio â chi beth bynnag fo'r rheswm. I sicrhau bod popeth yn mynd yn hwylus, dyma rai camau syml i chi eu dilyn:

- Bydd angen i chi adael eich llety'n lân ac yn daclus fel yr oedd pan gyrhaeddoch chi, gan gynnwys eich ystafell wely (a'r ystafell ymolchi, os yw hynny'n berthnasol) a'r holl ardaloedd cymunedol.
- Rhaid i'r holl ddodrefn fod yno ac yn ôl yn eu safleoedd gwreiddiol.
- Rhaid i chi gloi eich ystafell a dychwelyd eich allweddi erbyn 10:00am ar ddiwrnod olaf eich contract.
- I gael gwybod mwy, gweler y **rhestr wirio symud allan**.

Os na fyddwch yn mynd â'ch holl eiddo o'r neuadd breswyl, byddwn yn mynd â'ch pethau chi a byddwn yn eu storio am 7 diwrnod ar ôl i'ch contract meddiannaeth ddod i ben. (Os ydynt yn bethau sy'n pydru, byddwn yn eu taflu'n syth). Os na fyddwch wedi casglu eich eitem(au) o fewn 7 diwrnod o ddiwedd eich contract meddiannaeth, neu erbyn dyddiad arall y cytunwyd arno, bydd y Brifysgol yn eu gwaredu fel y gwêl yn dda, gan gynnwys ymhlith dulliau eraill, trefnu i'r eitemau hynny gael eu storio neu eu taflu.

## Gadael yn ystod cyfnod y contract

Mae myfyrwyrsy'n derbyn contract ar gyfer llety prifysgol yn gwenud hynny am y cyfnod llawn a ddangosir ar eu contractau. Mae hyn yn rwymedigaeth gyfreithiol rwymol rhwng y myfyriwr a'r brifysgol na ellir dod i ben cyn y dyddiad gorffen. Bydd gan fyfyrwyr hawl i gael rhyddhau o'u Contract Meddiannaeth os yw o'r amodau canlynol yn berthnasol:

Wedi'i atal rhag astudio yn y Brifysgol;
Tynnu'n ol o astudio yn y Brifysgol.

Os ydych yn bwriadu gadael oherwydd eich bod yn ymadael â Phrifysgol Aberystwyth, dim ond ar ôl i ni gael cadarnhad o'ch dyddiad gorffen gan y Gofrestrfa Academaidd y byddwn yn eich rhyddhau o'ch Contract meddiannaeth. Codir tâl arnoch tan y dyddiad y byddwch yn symud allan o'ch llety neu ddyddiad gorffen eich cwrs – pa un bynnag sydd ddiweddaraf. Ni fydd modd i chi barhau i fyw yn llety'r brifysgol ar ôl i'ch cais i dynnu'n ôl gael ei gadarnhau oherwydd na fyddwch bellach wedi'ch cofrestru fel myfyriwr.

I gael gwybod mwy am sut i wneud cais i ddod â'ch Contract meddiannaeth i ben yn gynnar, cysylltwch â'r Swyddfa Llety.

## Symud i lety arall

Gobeithiwn y byddwch yn hapus yn eich llety, ond rydym yn deall nad felly y mae hi bob amser, am amryw o resymau. Felly, rydym yn cynnig proses lle gallwch wneud cais i symud i lety arall yn y Brifysgol. I gael gwybod mwy, ewch **i'n gwefan Ceisiadau Trosglwyddo.**

Os nad ydych yn siŵr a ydych am newid ystafell neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn neu ar ôl trosglwyddo, neu yn ystod y broses, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddfa Llety.

## Eiddo nad oes ar neb ei eisiau

Peidiwch â thaflu'r pethau nad ydych eu heisiau mwyach – efallai y bydd modd i chi eu rhoi i achosion da!

I gael gwybod mwy, ewch i'n **gwefan Symud Allan**.

Bydd yr holl eitemau a roddir yn cael eu rhoi i elusennau lleol a Hyb yr Hael Undeb Aber.

# Arhoswch gyda ni!

## Pam Aros Gyda Ni?

- Mae'r holl filiau ynni wedi'u cynnwys.
- Ynghyd â chyswllt cyflym gwifredig a di-wifr â'r rhyngrwyd.
- Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon yn rhad ac am ddim.
- Dewiswch fyw gyda ffrindiau, neu wneud cais yn unigol, neu fel grŵp bach, er mwyn cael rhannu llety â myfyrwyr eraill sy'n dychwelyd, mewn fflatiau / tai o rhwng 5 a 10 ystafell wely.
- Cyfleusterau golchi dillad ar y safle.
- Cymorth 24/7 – gan gynnwys derbynfa wedi'i staffio.
- Yswiriant Eiddo Personol wedi'i gynnwys.
- Cynlluniau talu ar gael i dalu ffioedd llety.
- Contract cyfnod penodol – dim rhent haf, dim angen gwarantwyr a dim cyd – denantiaethau a sawl tenantiaeth.
- Contractau am ystod o gyfnodau gwahanol ar gael ynghyd â llety'r Brifysgol dros yr haf.



# Torri Amodau eich Cytundeb

**Cyfeiriwch at Atodiadau 1, 2, 4 a 6**

Wrth i'r staff ymchwilio i achos o dorri amodau cytundeb, mae'n bosib y bydd gofynion yn cael eu rhoi arnoch er mwyn atal achosion pellach o dorri amodau cytundeb neu darfu yn y dyfodol.

## Torri'r amodau mewn modd difrifol neu dro ar ôl tro.

Gellir cymryd y camau hyn yn erbyn preswylydd a geir yn torri amodau ei Gontract Meddiannaeth yn gyson neu mewn modd difrifol:

- Gwaharddiad rhag ailymgeisio am lety'r Brifysgol mewn blynyddoedd academaidd i ddod.
- Eich gwahardd o lety'r Brifysgol yn y flwyddyn gyfredol ac mewn blynyddoedd i ddod.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen symud unigolion i lety arall naill ai am resymau disgyblu neu am resymau lles. Er y gwneir pob ymdrech i'w symud i lety am bris tebyg, mae'n bosib y bydd symud preswylwyr i ystafelloedd mewn band pris gwahanol yn dod a goblygiadau ariannol yn eu sgil.

## Hawl i Apelio

Mae gennych hawl i apelio yn erbyn canlyniad cyfarfod Torri Amodau Cytundeb. Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich apêl yn ysgrifenedig i'r Tîm Ymddygiad Myfyrwyr, Cwynion a Disgyblaeth ymhen 14 diwrnod ar ôl derbyn llythyr yn cadarnhau'r camau a gymerwyd.

Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â **casework@aber.ac.uk**

| | |
|---|---|
| **Datrysiad Cynnar** | Pan fydd cwynion yn cael eu gwneud ynglŷn â materion ynghylch byw gydag eraill, byddwn bob amser yn ceisio eu datrys ar y lefel isaf bosibl. Am ragor o wybodaeth, amlinellir y broses hon yn ein Canllaw Byw yn y Gymuned. |
| **Rhybudd Anffurfiol** | Byddwch yn cael gwybod am y digwyddiad a'r canlyniad yn ysgrifenedig. Oherwydd hynny, mae'n bosib y cewch gyngor priodol ynglŷn â sut i ymddwyn yn well. Gallech gael eich gwahodd hefyd i drafod y mater. Bydd hyn yn cael ei roi ar eich cofnod llety. |
| **Rhybudd Ysgrifenedig** | Byddwch yn cael gwybod am y digwyddiad yn ysgrifenedig. Cewch eich gwahodd i gyfarfod disgyblu ffurfiol â'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol. Bydd manylion y digwyddiad yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â'r canlyniad. Bydd hyn yn cael ei roi ar eich cofnod llety. |
| **Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol** | Byddwch yn cael gwybod am y digwyddiad yn ysgrifenedig. Cewch eich gwahodd i gyfarfod disgyblu ffurfiol â'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol. Bydd manylion y digwyddiad yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â'r canlyniad. Cofiwch: efallai y gofynnir i chi symud i lety arall bryd hynny, neu efallai y bydd angen ichi adael eich llety. Bydd hyn yn cael ei roi ar eich cofnod llety. |
| **Cyfeirio at y Tîm Ymddygiad Myfyrwyr, Cwynion a Disgyblaeth** | Os ceir achosion parhaus neu ddifrifol iawn o dorri'r Cytundeb Meddiannaeth neu reolau'r Brifysgol, bydd y Tîm Ymddygiad Myfyrwyr, Cwynion a Disgyblaeth yn cael ei hysbysu. Yna, bydd y Tîm Ymddygiad Myfyrwyr, Cwynion a Disgyblaeth yn cynnal gwrandawiad disgyblaethol. Cofiwch: gallech gael eich cyfeirio i'r Panel Disgyblaethol a gallech gael eich atal neu eich gwahardd o'r Brifysgol. |



Mae'n hollbwysig eich bod chi ac unrhyw un sy'n ymweld â chi'n cydymffurfio â phob un o'n rheoliadau. Os na wnewch hyn, byddwn yn cymryd y camau disgyblu gyferbyn.

Gall y camau disgyblu hyn amrywio yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y digwyddiad.

Os gofynnir i chi gwrdd â staff i drafod achos o dorri amodau eich cytundeb, mae gennych hawl i fynd â rhywun gyda chi pan fydd y mater yn cael ei drafod.

Os na fyddwch yn bresennol mewn dau gyfarfod torri amodau cytundeb heb roi rhybudd digonol a gwneud trefniadau eraill, bydd y cyfarfod yn mynd yn ei flaen a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn eich absenoldeb.

## Rhoi gwybod am Dorri Rheolau a Chanlyniadau Disgwyliedig

Efallai y bydd gan breswylwyr ddisgwyliadau wrth gofnodi'r posibilrwydd o dorri contract llety. Tra bod ein Matrics, fel yr amlinellir yn y Llawlyfr i Breswylwyr, yn darparu canllawiau ar ganlyniadau posibl, mae pob achos yn cael ei asesu'n unigol. Mae'r canlyniadau'n dibynnu ar y dystiolaeth a ddarparwyd ac unrhyw amgylchiadau lliniarol sy'n berthnasol i'r tor-contract.

Os byddwch yn rhoi gwybod am dor-contract, byddwch yn ymwybodol efallai na fydd canlyniadau'r ymchwiliad yn cael eu rhannu gyda chi, oni bai bod y preswylydd dan adolygiad yn dewis datgelu'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw gamau wedi'u cymryd. Os yw'r ymddygiad yn parhau, rydym yn eich annog i barhau i roi gwybod am ddigwyddiadau i ni drwy **llety@aber.ac.uk**, drwy'r llinell gymorth 24/7 neu drwy siarad â'ch **Cynorthwywyr Preswyl** fel y gellir ailedrych ar y mater.

## Y dystiolaeth sydd ei hangen

Er mwyn ymchwilio i gŵyn, dylid cyflwyno tystiolaeth ategol. Mae'n bosibl na fydd adroddiad heb dystiolaeth ddigonol yn cael ei ymchwilio ymhellach. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn:

- **Annibynnol –** Gwrthrychol a gwiriadwy.
- **Cadarnhaol –** Wedi'i hategu gan ffynonellau ychwanegol.
- **Digonol –** Yn gallu cadarnhau'r honiadau a wneir.

Nid yw datganiad personol yn unig yn cael ei ystyried yn dystiolaeth. Mae mathau derbyniol o dystiolaeth yn cynnwys:

- **Tystiolaeth ddogfennol** (e.e. e-byst, ffotograffau).
- **Datganiadau tystion** gan staff y brifysgol, myfyrwyr, neu bartïon perthnasol eraill.
- **Adroddiadau** gan bersonél y brifysgol neu weithwyr proffesiynol o sefydliad partner.

Bydd yr holl dystiolaeth a gyflwynir yn cael ei hadolygu yn unol â pholisïau'r brifysgol i sicrhau tegwch a chyfrinachedd.



## Atodiad 1 Torri Amodau Cytundeb Meddiannaeth

| Pobl | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Camau / Unigolyn Cyfrifol | | | | | |
| Enghreifftiau o Ymddygiad | | Categori 1 | | | Categori 2 |
| | | Anffurfiol | Ffurfiol (1) | Ffurfiol (2) | |
| Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ymdrin ag unrhyw achos ar lefel wahanol i'r un a nodir yn y matrics. | | Aelod o'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol | Aelod o'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol | Aelod o'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol | Tîm Ymddygiad Myfyrwyr, Cwynion a Disgyblaeth |
| Camymddwyn Corfforol<br>(tarfu ar breswylwyr / y gymuned gan gynnwys ymddygiad ymosodol | Dyrnu / cicio / rhoi clatsien / tynnu gwallt / brathu | | | X | |
| | Gwthio / rhoi hergwd | | | X | |
| Camymddwyn Rhywiol | Cael cyfathrach rywiol neu gyflawni gweithred rywiol heb gydsyniad | | | | X |
| | Ceisio cael cyfathrach rywiol neu gyflawni gweithred rywiol heb gydsyniad | | | | X |
| | Rhannu deunyddiau rhywiol preifat rhywun arall heb gydsyniad | | | | X |
| | Cusanu heb gydsyniad | | | | X |
| | Cyffwrdd yn amhriodol drwy ddillad heb gydsyniad | | | | X |
| | Dangos organau rhywiol yn amhriodol i rywun arall | | | | X |
| | Dilyn rhywun arall dro ar ôl tro heb reswm da | | | | X |
| | Gwneud sylwadau dieisiau o natur rywiol | | | | X |
| Ymddygiad Difrïol / Gwrthgymdeithasol<br>Difrïo staff<br>Tarfu ar breswylwyr / y gymuned gan gynnwys ymddygiad difrïol | Bod ag arfau yn eich meddiant / defnyddio arfau | | | | X |
| | Bygwth brifo rhywun arall | | | X | |
| | Sylwadau difrïol ynghylch rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, hil, beichiogrwydd / mamolaeth, priodas / partneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, anabledd neu oedran unigolyn | | | | X |
| | Ymddwyn mewn modd bygythiol neu elyniaethus | | | X | |
| | Bwlio | | | | X |
| | Cysylltu â rhywun arall dro ar ôl tro (dros y ffôn, e-bost, neges destun neu safleoedd rhwydweithio cymdeithasol) yn erbyn dymuniad y person hwnnw | | | | X |
| | Diflastod sŵn | X | | | |
| | Ymyrryd yn amhriodol â swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyriwr neu gyflogai i'r Brifysgol neu unrhyw ymwelydd awdurdodedig â'r Brifysgol | | | | X |

***D.S. Bydd ailadrodd yr un drosedd fel arfer yn golygu yr ymdrinnir â'r mater ar lefel uwch.***

## Atodiad 2 Torri Amodau Cytundeb Meddiannaeth

### Eiddo

Camau / Unigolyn Cyfrifol

| Enghreifftiau o Ymddygiad<br><br>Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ymdrin ag unrhyw achos ar lefel wahanol i'r un a nodir yn y matrics. | | Categori 1 | | | Categori 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Anffurfiol | Ffurfiol (1) | Ffurfiol (2) | |
| | | Aelod o'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol | Aelod o'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol | Aelod o'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol | Tîm Ymddygiad Myfyrwyr, Cwynion a Disgyblaeth |
| Difrodi Eiddo | Achosi difrod sylweddol i eiddo'r Brifysgol neu i eiddo myfyriwr neu gyflogai i'r Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol | | | | X |
| | Achosi mân ddifrod i eiddo'r Brifysgol neu i eiddo myfyriwr neu gyflogai i'r Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol, boed yn fwriadol neu drwy esgeulustod | | X | | |
| Mynd i Mewn i Eiddo, Mynd ag Eiddo neu ei Ddefnyddio Heb Ganiatâd | Peryglu diogelwch preswylwyr e.e. gosod rhywbeth i gadw drws fflat ar agor neu ei adael ar y glicied / rhoi allweddi / codau / cardiau i rywun arall | | | X | |
| | Mynd i mewn i safleoedd y Brifysgol neu eu defnyddio heb ganiatâd | | | | X |
| | Mynd ag eiddo sy'n berchen i rywun arall heb ganiatâd | | X | | |
| | Camddefnyddio eiddo'r Brifysgol (defnyddio eiddo at ddibenion heblaw'r rhai y'i bwriadwyd ar eu cyfer) | | X | | |
| Achosi Pryder Iechyd a Diogelwch | Bod ag eitemau gwaharddedig yn eich meddiant | | X | | |
| | Gweithred / anwaith sydd wedi achosi neu a allai fod wedi achosi niwed difrifol ar safleoedd y Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft, bod â chyffuriau a reolir / cyfarpar cyffuriau yn eich meddiant neu eu cyflenwi) | | | | X |
| | Gweithred / anwaith sydd wedi achosi neu a allai fod wedi achosi pryder iechyd a diogelwch ar safleoedd y Brifysgol (er enghraifft, ysmygu sigarennau mewn ardaloedd heblaw rhai dynodedig) | | X | | |
| | Ardaloedd cymunedol anniben | X | | | |

### Eiddo

Camau / Unigolyn Cyfrifol

| Enghreifftiau o Ymddygiad<br><br>Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ymdrin ag unrhyw achos ar lefel wahanol i'r un a nodir yn y matrics. | | | Categori 1 | | | Categori 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Anffurfiol | Ffurfiol (1) | Ffurfiol (2) | |
| | | | Aelod o'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol | Aelod o'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol | Aelod o'r Tîm Bywyd Preswyl a Chymunedol | Tîm Ymddygiad Myfyrwyr, Cwynion a Disgyblaeth |
| Achosi Pryder Iechyd a Diogelwch (parhad) | Gwaredu gwastraff mewn modd anghywir | | X | | | |
| | Peidio â chydweithredu yn ystod digwyddiad | | | X | | |
| | Diogelwch Tân | Ymyrryd â'r system larwm tân | | | X | |
| | | Difrodi drysau tân / offer cau drysau | | | X | |
| | | Ymyrryd yn amhriodol ag offer diffodd tân | | | X | |
| | | Gadael bwyd heb oruchwyliaeth wrth goginio | | X | | |
| | | Larwm ffug: coginio / ysmygu / aerosol / sychwr gwallt ac ati | | X | | |
| | | Peidio â chwblhau hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gorfodol | X | | | |
| | | Defnyddio barbeciw ar y safle | | X | | |
| | | Coginio mewn ystafell wely | | X | | |
| | | Dechrau tân yn fwriadol | | | | X |
| | | Seinio larwm tân yn faleisus | | | X | |
| | | Gosod rhywbeth i gadw drws tân ar agor | | X | | |
| | | Bod â thân gwyllt yn eich meddiant / defnyddio tân gwyllt | | | X | |
| | | Peidio â gadael yr adeilad yn ystod larwm tân | | | X | |
| | | Rhwystro llwybrau gadael | | X | | |

*D.S. Bydd ailadrodd yr un drosedd fel arfer yn golygu yr ymdrinnir â'r mater ar lefel uwch.*

# Atodiad 3 Targedau Amseroedd Datrys Cynnal a Chadw

## Cwrt Mawr, Rosser, Trefloyne, Pantycelyn, PJM

Mae'r tabl hwn yn amlinellu'r amseroedd targed ar gyfer ymateb a thrwsio nam). Yn achos 'Nam Brys' mae'n bosibl mai trwsio dros dro fydd yr ymateb cyntaf, a thrwsio'r nam yn barhaol wedyn cyn gynted â phosibl.

### Diffiniadau

Mae **Gwaith Atgyweirio Brys** yn golygu digwyddiadau sydd angen gwaith atgyweirio ar unwaith i osgoi risg iechyd a diogelwch difrifol a/neu ddifrod ddilynol mawr i'r adeilad naill ai drwy unioni neu atgyweirio dros dro.

Mae **Digwyddiad yn golygu**, yng nghyswllt unrhyw Ymrwymiad Rheolaeth, methiant i gyrraedd unrhyw Safon Perfformiad perthnasol y rhoddwyd gwybod amdano i'r Ddesg Gymorth.

Mae **Gwaith Atgyweirio Dros Dro** yn golygu, yng nghyswllt Gwaith Atgyweirio Brys, gwaith a wneir sydd o natur dros dro tan y gellir gwneud y Gwaith Atgyweirio Parhaol.

Mae **Gwaith Atgyweirio Parhaol** yn golygu unioni Gwaith Atgyweirio Dros Dro.

Mae **Gwaith Atgyweirio Cyffredinol** yn golygu unrhyw waith atgyweirio ac eithrio Gwaith Atgyweirio Brys neu Waith Atgyweirio Dros Dro ar gyfer Gwaith Atgyweirio Brys.

| | Gwaith Atgyweirio Brys | Gwaith Atgyweirio Parhaol | Gwaith Atgyweirio Cyffredinol |
|---|---|---|---|
| Ffabrig yr adeilad | 6 awr | 5 diwrnod | 4 wythnos |
| Draenio | 6 awr | 5 diwrnod | 4 wythnos |
| Darnau gosod a gosodiadau | 6 awr | 5 diwrnod | 4 wythnos |
| Lloriau a gorchudd llawr | 6 awr | 7 diwrnod | 7 diwrnod |
| Gorffeniadau addurniadol | Amherthnasol | Amherthnasol | 4 wythnos |
| Gwres, system ddŵr a gosodiadau glanweithdra | 6 awr | 7 diwrnod | 7 diwrnod |
| Gosodiadau trydan | 6 awr | 7 diwrnod | 7 diwrnod |
| Larymau tân a mwg | 6 awr | 7 diwrnod | 7 diwrnod |
| Diffoddwyr tân | Amnewid o fewn 24 awr | | |
| Offer hanfodol (e.e. methiant llwyr cloeon, popty, oergell, gwely) | Amnewid o fewn 24 awr | | |
| Offer arall | Amnewid o fewn 7 diwrnod | | |
| Ffyrdd, llwybrau ac ati | 1 diwrnod | 5 diwrnod | 4 wythnos |
| Gwaith allanol | Amherthnasol | Amherthnasol | 4 wythnos |
| Rheoli Pla | Ymatebir i faterion a gofnodwyd o fewn 24 awr | | |
| Tywydd Gwael | 6 awr ar gyfer materion a adroddwyd neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. | | |



## Fferm Penglais

Mae'r tabl hwn yn amlinellu'r amseroedd targed ar gyfer ymateb a thrwsio nam. Yn achos 'Nam Brys' mae'n bosibl mai trwsio dros dro fydd yr ymateb cyntaf, a thrwsio'r nam yn barhaol wedyn cyn gynted â phosibl.

| Categori Blaenoriaeth Unioni | Cyfnod Unioni |
|---|---|
| Gwaith Atgyweirio Argyfwng | 6 awr |
| Gwaith Atgyweirio Brys | 6 awr |
| Gwaith Atgyweirio Cyffredinol | 5 diwrnod |
| Rheoli Pla | Ymatebir i faterion a gofnodwyd o fewn 24 awr |
| Tywydd Gwael | 6 awr ar gyfer materion a adroddwyd neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. |

### Diffiniadau

Mae **Gwaith Atgyweirio Argyfwng** yn golygu gwaith atgyweirio sydd angen ymateb ar unwaith i atal risg iechyd a diogelwch difrifol a/neu ddifrod dilynol mawr i adeilad a/neu'r ardal gyfagos.

Mae **Gwaith Atgyweirio Brys** yn golygu gwaith atgyweirio i unioni risg iechyd a diogelwch ac i ddiogelu a/neu atal difrod dilynol bach i adeilad a/neu'r ardal gyfagos.

Mae **Gwaith Atgyweirio Cyffredinol** yn golygu gwaith atgyweirio nad yw'n waith Atgyweirio Argyfwng, yn Waith Atgyweirio Brys nac yn Waith Atgyweirio Dros Dro

# Atodiad 4 Eitemau Gwaharddedig

Mae Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol yn eich gwahardd rhag dod ag eitemau penodol i'ch llety am resymau iechyd a diogelwch cyffredinol, diogelwch tân ac amgylchedd. Cymerir camau disgyblaethol os canfyddir bod gan breswylwyr eitemau sy'n cynnwys, neu sy'n debyg i, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

| Eitem | Manylion Ychwanegol |
|---|---|
| **A** | |
| Anifeiliaid anwes | Ni chaniateir cadw anifeiliaid o unrhyw fath yn unrhyw le yn y llety neu'r tir o amgylch. |
| Arfau | Unrhyw arfau neu gopïau o arfau, arfau pelenni (BB), arfau peledi paent ac arfau awyr, peniau laser, bwâu croes a bwâu hir, catapyltiau, a chyllyll annomestig ac unrhyw eitem arall y mae PA yn barnu ei bod yn arf. Caiff gynnau Tegan eu hatafaelu os cânt eu defnyddio i beri niwsans, a dylid storio cyllyll cegin yng nghegin eich fflat yn unig. Os canfyddir cyllyll yn unrhyw le heblaw'r gegin ystyrir eu bod yn arfau a byddwn yn mynd â nhw oddi yno. Ystyrir bod Lletywyr neu eu gwesteion sy'n berchen ar unrhyw eitem o'r fath yn debygol o fod yn berygl iddynt eu hunain, i fyfyrwyr eraill neu i staff a dyna pam y cymerir yr eitem. Gweithredir yn unol â Rheolau a Rheoliadau PA, a gelwir ar yr Heddlu os bernir bod hynny'n angenrheidiol. |
| Arfau awyr | |
| Arfau peledi paent | |
| Arfau pelenni (BB) | |
| Argraffwyr 3D | |
| **B** | |
| Batris Lithiwm | |
| Barbeciws | Wedi eu gwahardd ym mhob rhan o'r campws gan gynnwys y tu mewn i'ch llety ac o'i amgylch. |
| Blancedi trydan | |
| Bwâu croes | |
| Bwâu hir | |
| Bwrdd Dartiau | |
| **C** | |
| Canhwyllau | Wedi'i oleuo neu heb ei oleuo |
| Catapyltiau | |
| Cetyn Shisha | |
| Copïau o arfau | |
| Cyllyll annomestig | |
| **D** | |
| Dartiau | |
| Dodrefn Gwynt | |
| Dyfeisiau pyrotechnegol | |

| Eitem | Manylion Ychwanegol |
|---|---|
| **FF** | |
| Ffresnydd aer sy'n cael ei blygio i mewn / toddiadau cwyr | |
| Ffriwyr saim dwfn | |
| Ffyn arogldarth | |
| **G** | |
| Goleuadau bach | Caniateir goleuadau tylwyth teg batri a goleuadau LED |
| Goleuadau stribed LED | |
| Gwresogyddion | |
| **H** | |
| Hors dillad wedi'i gynhesu / sychwyr gwres | |
| **L** | |
| Lampau halogen | |
| Lampau lafa | |
| **LL** | |
| Llosgyddion olew aromatherapi | |
| Lluosaddaswyr a roddir yn syth i mewn i'r soced. | |
| **M** | |
| Matshys | |
| **O** | |
| Oeryddion bach | |
| Offer DJ | |
| Offer fondue | |
| Offer a lampau olew | |
| Offer lliw haul | |
| Offer nwy | |
| Offer paraffin | |
| Offer petrol | |
| Offerynnau trydan | |

| Eitem | Manylion Ychwanegol |
|---|---|
| **P** | |
| Peiriannau coginio araf | |
| Peiriannau golchi a sychu dillad | |
| Peiriannau grilio | |
| Peiriant Coginio Reis | Os yw'r peiriant coginio reis yn cydymffurfio â'r meini prawf canlynol gallwch ei ddefnyddio yn y preswylfeydd:<br>1. Mae'n rhaid iddo gael plwg 3 phin Prydeinig<br>2. Rhaid i'r marc 'CE' ymddangos ar y peiriant (fel rheol ar y label ar ochr y peiriant coginio reis)<br>3. Rhaid iddo gael prawf PAT<br>4. Rhaid i'r myfyrwyr sicrhau nad ydynt yn gadael y gegin pan fônt yn coginio.<br>5. Ni chaniateir addasyddion (i'w defnyddio ar UNRHYW offer) |
| Peniau laser | |
| Poptai bach | |
| Poptai ping | |
| **S** | |
| Seinchwyddwyr cerddorol | |
| Sosbenni pwysedd | |
| Sylweddau Anghyfreithlon | Yn cynnwys unrhyw fath o geriach cyffuriau. Mae meddu ar sylweddau sydd wedi'u gwahardd, delio ynddynt neu eu cymryd yn drosedd sy'n mynd yn groes i Reolau a Rheoliadau'r Brifysgol. Os bydd unrhyw Breswylydd neu westai iddo/iddi yn euog o hyn, gall arwain at gamau disgyblu. Gelwir yr heddlu. Ni chaniateir i geriach cyffuriau fod yn eich meddiant. |
| **T** | |
| Tân gwyllt | Wedi eu gwahardd ym mhob rhan o'r campws gan gynnwys y tu mewn i'ch llety ac o'i amgylch. |
| Tecellau | Yn yr ystafelloedd gwely |
| Tostwyr | Yn yr ystafelloedd gwely |

**Pantycelyn:** Noder y bydd trigolion Pantycelyn yn cael eu hysbysu am nifer o eitemau gwaharddedig ychwanegol mewn perthynas â'r ceginau cymunedol.

## Atodiad 5 Costau Safonol

Os caiff rhywbeth ei dorri neu'i ddifrodi bydd angen ei atgyweirio neu brynu un newydd. Gall hyn gostio llawer mwy nag yr ydych yn ei feddwl - ystyriwch gostau llafur, deunyddiau, dosbarthu a TAW!

**Glanhau**

Mae'r tabl hwn yn cynnwys rhai taliadau enghreifftiol ac nid yw'n dabl cynhwysfawr. Fodd bynnag, dylech gofio mai bras amcan o'r taliadau yw'r rhain ac y gallent amrywio o neuadd i neuadd.

| Disgrifiad | Costau |
|---|---|
| Glanhau carped (fesul ystafell) | £25 |
| Glanhau matras | £15 |
| Glanhau cadair ddesg | £10 |
| Glanhau (y glanhäwr/awr 1af)<br>Glanhäwr / oriau ychwanegol | £50<br>£15 fesul awr/glanhäwr |
| Sbwriel (fesul bag) | £10 |

**Amnewidiadau / Gwaith Atgyweiro**

Mae'r tabl hwn yn cynnwys rhai taliadau enghreifftiol ac nid yw'n dabl cynhwysfawr. Fodd bynnag, dylech gofio mai bras amcan o'r taliadau yw'r rhain ac y gallent amrywio o neuadd i neuadd.

| Disgrifiad | Costau |
|---|---|
| Newid matras | £90 |
| Cadair ddesg newydd | £90 |
| Peintio (er enghraifft, 1m$^2$) | £60 |



## Atodiad 6 Taliadau'n ymwneud â Diogelwch Tân

Mae'r tabl hwn yn cynnwys rhai taliadau enghreifftiol ac nid yw'n dabl cynhwysfawr. Fodd bynnag, dylech gofio mai bras amcan o'r taliadau yw'r rhain ac y gallent amrywio o neuadd i neuadd.

| Disgrifiad | Costau |
|---|---|
| Seinio neu ymyrryd â'r larwm dân: difrodi, gorchuddio, tynnu'r synwyryddion mwg, torri gwydr | costau |
| Camddefnyddio neu ymyrryd â'r offer tân: cost ail-lenwi a chostau glanhau / sychu | costau |
| Smygu yn y Llety | costau |
| Difrod tân | costau |

## Trefn Gwyno Preswylfeydd

O bryd i'w gilydd ni fydd pethau'n mynd yn iawn, neu efallai na fydd y gwasanaeth a ddarperir gennym yn bodloni eich disgwyliadau ond byddwn bob amser yn barod i roi eglurhad i chi am bob penderfyniad a wnaed gennym.

Cynlluniwyd y drefn hon i ymdrin â chwynion gan fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, sy'n byw mewn Llety sy'n Eiddo i'r Brifysgol neu a reolir ganddi, ac mae'n rhoi gwybodaeth am:

- Sut i wneud cwyn
- Sut y byddwn ni'n ymdrin â'r gŵyn
- Beth allwch chi ei wneud os nad ydych chi'n hapus â'n hymateb

Swyddfa Llety
Y Sgubor, Fferm Penglais
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
Cymru
SY23 3FH

+44 (0) 1970 622984

llety@aber.ac.uk

/AberUni.AccommodationOffice

/PAUAccomOffice

/pauaccommodationoffice

www.aber.ac.uk/en/accommodation

